Home Office

# Deddf Estraddodi 2003
# Codau Ymarfer

# CYNNWYS


## CYFLWYNIAD 1

(a) Cefndir 1

(b) Statws y Codau Ymarfer 1

(c) Cymhwyso’r Codau yng Ngogledd Iwerddon 2

(d) Caffaeledd 2

(e) Unigolion sydd wedi’u cwmpasu gan y Codau 2

(f) Crynodeb o’r pwerau’r sydd gan yr heddlu dan Ddeddf Estraddodi 2003 2

## COD B

**Cod Ymarfer ar gyfer chwiliad o eiddo gan swyddogion yr heddlu a chipio, cadw, defnyddio a darparu eiddo sy’n cael ei ganfod gan swyddogion yr heddlu ar unigolion neu mewn eiddo** 4

1 Cyflwyniad 4

2 Cyffredinol 5

3 Gwarantau chwiliad a gorchmynion dangos 6

(a) Cyn gwneud cais 6

(b) Gwneud cais 7

4 Mynediad heb warant – pwerau arbennig 10

(a) Arestio (ac ati) 10

(b) Chwiliad eiddo lle gwneir arestaid neu lle’r oedd yr unigolyn a arestiwyd yn union cyn ei arestio 10

(c) Chwiliad eiddo ym meddiant neu’n cael ei reoli gan y sawl a arestiwyd 12

5 Chwiliad gyda chaniatâd 13

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | Chwilio eiddo – ystyriaethau cyffredinol | | 13 |
| | (a) | Amser y chwiliadau | 13 |
| | (b) | Mynediad heblaw gyda chaniatâd | 13 |
| | (c) | Hysbysiad o Bwerau a Hawliau | 13 |
| | (d) | Cynnal chwiliadau | 14 |
| | (e) | Gadael eiddo | 14 |
| 7 | Cipio a chadw | | 14 |
| | (a) | Cipio | 14 |
| | (b) | Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001: gweithdrefnau penodol ar gyfer pwerau cipio a didoli | 15 |
| | (c) | Cadw | 16 |
| | (d) | Hawliau perchnogion | 17 |
| 8 | Trosglwyddo | | 17 |
| 9 | Gweithredu ar ôl chwiliadau a chofrestri chwiliadau | | 19 |

## *COD C*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cod Ymarfer ar gyfer arestio, cadw a thriniaeth unigolion dan gadwad dan Ddeddf Estraddodi 2003** | | | 20 |
| 1 | Cyffredinol | | 20 |
| 2 | Arestio | | 21 |
| 3 | Cofnodion cadwraeth | | 22 |
| | (a) | Swyddogion y Ddalfa – cyfrifoldebau | 23 |
| | (b) | Gweithredu cychwynnol: unigolion dan gadwad | 23 |
| | (c) | Gweithredu cychwynnol: unigolion dan gadwad – grwpiau arbennig | 24 |
| | (d) | Dogfennau | 24 |
| 4 | Terfynau amser ar gyfer cadw unigolyn a'i ryddhau | | 24 |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Eiddo un dan gadwad | 25 |
| | (a) Gweithredu | 25 |
| | (b) Dogfennau | 26 |
| 6 | Unigolyn y chwilir amdano am drosedd yn y DU | 26 |
| 7 | Hawl i beidio â chadw rhywun *incommunicado* | 26 |
| 8 | Hawl i gael cyngor cyfreithiol | 26 |
| 9 | Dinsyddion gwledydd annibynnol syn perthyn i'r Gymanwald neu ddinasyddion tramor | 26 |
| 10 | Amodau cadw yn y ddalfa | 26 |
| 11 | Gofal a thriniaeth rhai dan gadwad | 26 |
| Atodiad A: Arestio dan Ddeddf Estraddodi 2003 | | 27 |
| Atodiad B: Rhestr wirio ar gyfer swyddogion y ddalfa mewn achosion estraddodi | | 29 |
| Atodiad C: Crynodeb o broses estraddodi'r DU | | 31 |
| Atodiad D: Estraddodi: Hysbysiad ysgrifenedig i un sydd dan gadwad gan gynnwys hysbysiad prosesu teg | | 37 |

## *COD D*

| | | |
|---|---|---|
| **Cod Ymarfer ar gyfer adnabod unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa dan Ddeddf Estraddodi 2003** | | 39 |
| 1 | Cyflwyniad | 39 |
| 2 | Cyffredinol | 39 |
| 3 | Adnabod trwy olion bysedd a samplau | 40 |
| | (a) Cyffredinol | 40 |
| | (b) Gweithredu | 41 |
| | (c) Dogfennau | 42 |
| | (d) Defnyddio, datgelu a chadw olion bysedd a samplau | 42 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (e) | Dinistrio olion bysedd a samplau | 43 |
| 4 | Archwiliadau er mwyn adnabod a thynnu lluniau | | 43 |
| | (a) | Chwilio neu archwilio'r unigolion dan gadwad yn swyddfeydd yr heddlu | 43 |
| | (b) | Tynnu lluniau | 44 |
| | (c) | Gwybodaeth i'w rhoi | 45 |
| | (d) | Dogfennau | 45 |
| | (e) | Defnyddio, datgelu a chadw lluniau unigolion neu farciau adnabod | 45 |
| **GEIRFA** | | | 47 |

## DEDDF ESTRADDODI 2003: CODAU YMARFER

### Cyflwyniad

1.1 Mae'r Codau Ymarfer hyn yn rheoli'r gwaith o weithredu pwerau'r heddlu yn Rhan 4 Deddf Estraddodi 2003 (y Ddeddf). Cânt eu cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Cartref dan Adran 173 y Ddeddf. Mae'r Codau'n darparu canllawiau ar weithredu pwerau'r heddlu mewn achosion estraddodi yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a phwerau swyddogion y tollau ledled y DU.

1.2 Cyhoeddwyd y Codau Ymarfer gyntaf mewn drafft a'u cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Diwygiwyd y Codau drafft yng ngoleuni ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghori, yn unol ag Adran 173 (2) y Ddeddf.

### (a) Cefndir

1.3 Codwyd amheuaeth yn yr achos estraddodi, *Regina v Commissioner of Police for the Metropolis, Ex P Rottman [2002] 2 All ER 865*, p'un a oedd y darpariaethau yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)[1] yn ymestyn i bwerau'r heddlu mewn achosion lle'r oedd y drosedd wedi'i chyflawni dramor. Mae Rhan 4 y Ddeddf yn cadarnhau'r mater trwy amlinellu mewn statud pa rai o bwerau'r heddlu sy'n gymwys mewn achosion estraddodi.

1.4 Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i drefniadau estraddodi'r DU. Mae'n cynnwys darpariaethau a allai ei gwneud yn ofynnol i unrhyw swyddog yr heddlu ymateb i gais gan wlad arall am estraddodi lle mae amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol.

### (b) Statws y Codau Ymarfer

1.5 Mae'r Codau hyn yn amlinellu pwerau'r heddlu y gellir dibynnu arnynt mewn achosion estraddodi, sy'n ychwanegol i bwerau deddf gwlad yr heddlu. Mae'r pwerau yn y Ddeddf wedi'u modelu ar y rhai sydd i'w gweld yn PACE, ond lle bo angen a lle'n briodol, maent yn ategu darpariaethau domestig er mwyn galluogi swyddogion i ymateb i geisiadau estraddodi yn effeithiol.

1.6 Lle nad yw'r Codau'n dweud dim, dylai swyddogion barchu darpariaethau domestig perthnasol a amlinellir yn fersiwn diwygiedig Codau Ymarfer PACE (Codau PACE), a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2003. Lle mae gweithdrefnau mewn achosion estraddodi yr un fath â rhai mewn achosion domestig, mae'r Codau hyn yn cyfeirio swyddogion i'r adran berthnasol yn y Codau PACE.

1.7 Dan Adran 173(6) y Ddeddf, nid yw methiant gan swyddog i gydymffurfio ag unrhyw rai o ddarpariaethau'r Codau ynddo'i hun yn ei gwneud ef neu hi yn

---
[1] Pennod 60

agored i weithdrefnau troseddol neu sifil. Dan Adran 173(7) y Ddeddf, mae'r Codau'n dderbyniol mewn tystiolaeth mewn achosion dan y Ddeddf a rhaid eu hystyried gan farnwr neu lys wrth benderfynu ar unrhyw gwestiwn lle mae'r barnwr neu'r llys yn ystyried eu bod yn berthnasol. Nid yw darpariaethau'r Codau hyn yn cynnwys yr Atodiadau.

## (c) Cymhwyso'r Codau yng Ngogledd Iwerddon

1.8 Yng Ngogledd Iwerddon, dylai cyfeiriadau yn y Codau Ymarfer hyn at Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) gael eu darllen fel cyfeiriadau at Orchymyn Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (Gogledd Iwerddon) 1989 (S.I. 1989/1341 (N.I. 12)), a dylai cyfeiriadau at Godau Ymarfer PACE neu Godau Ymarfer diwygiedig PACE gael eu darllen fel cyfeiriadau at rannau perthnasol Codau Ymarfer PACE (Gogledd Iwerddon). Lle nad oes enghreifftiau cyfwerth uniongyrchol i Godau Ymarfer PACE Cymru a Lloegr, dylai swyddogion yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon weithredu gan barchu Codau Ymarfer diwygiedig PACE. I'r perwyl hwn, tynnir sylw hefyd at ganllawiau blaenorol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gogledd Iwerddon yng nghylchlythyr POB 5/2003.

## (d) Caffaeledd

1.9 Rhaid i'r Codau Ymarfer hyn fod ar gael yn hawdd ym mhob un o swyddfeydd yr heddlu fel y gall swyddogion yr heddlu, unigolion dan gadwad ac aelodau'r cyhoedd eu defnyddio.

1.10 Rhaid sicrhau bod cyfieithiad Cymraeg o'r Codau ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr heddlu yng Nghymru.

1.11 Mae'r Eirfa i'r Codau Ymarfer yn cynnwys eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y Codau.

## (e) Unigolion sydd wedi'u cwmpasu gan y Codau

1.12 Mae'r Codau Ymarfer hyn yn berthnasol i swyddogion yr heddlu sy'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a swyddogion y tollau sy'n gweithredu ledled y DU. Bydd gweithredu pwerau dan Ran 4 y Ddeddf gan heddlu'r Lluoedd yn cael ei reoli gan Godau Ymarfer ar wahân.

1.13 Yn y Codau hyn yr un ystyr sydd i 'unigolyn dynodedig' â'r un a roddir gan God B 2.11 PACE. Rhaid i unigolion dynodedig barchu darpariaethau perthnasol y Codau Ymarfer hyn.

**(f) Crynodeb o'r pwerau sydd gan yr heddlu dan y Ddeddf Estraddodi**

1.14 Dyma'r pwerau y mae'r Ddeddf yn eu rhoi i'r heddlu ac sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Codau Ymarfer:

- Y pŵer i arestio (Adrannau 3, 5, 71 a 73);
- Y pŵer i wneud cais am warant neu orchymyn dangos a'u gweithredu o ran deunydd sy'n ymwneud â'r drosedd estraddodi (Adrannau 156 a 157);
- Y pŵer i wneud cais am warant a gweithredu gwarant i chwilio eiddo ar gyfer gweithdrefnau arbennig neu ddeunydd wedi'i eithrio mewn perthynas â throsedd estraddodi (Adran 160);
- Y pŵer i gipio a chadw deunydd sy'n ymwneud ag unrhyw drosedd a gyflawnwyd dramor wrth chwilio eiddo er mwyn arestio (Adran 161), wrth arestio (Adran 162) neu wedi arestio (Adran 164);
- Y pŵer i gipio a chadw deunydd sy'n ymwneud ag adnabod y troseddwr ar ffo wrth chwilio eiddo neu unigolion wrth gael eu harestio (Adrannau 162 a 163) neu wedi'u harestio (adran 164);
- Y pŵer, wedi arestio, i gynnal chwiliad o'r eiddo ar unwaith heb awdurdod ymlaen llaw gan uwch swyddog yr heddlu (Adran 164);
- Y pŵer i chwilio unigolyn pan gaiff ei arestio ac i gipio a chadw deunydd sy'n ymwneud ag adnabod yr unigolyn ac unrhyw drosedd a gyflawnwyd dramor (Adran 163);
- Y pŵer i gymryd olion bysedd a samplau gan unigolyn a arestiwyd dan bŵer arestio i estraddodi (Adran 166);
- Y pŵer i chwilio ac archwilio unigolyn a arestiwyd dan bŵer arestio i estraddodi, er mwyn sicrhau pwy yw ef/hi (Adran 167);
- Y pŵer i dynnu llun unigolyn a arestiwyd dan bŵer arestio i estraddodi (Adran 168);
- Y pŵer i gadw a darparu deunydd a gipiwyd ar gyfer yr awdurdod neu diriogaeth sy'n gwneud y cais (Adran 172).

1.15 Mae'r Codau Ymarfer hyn wedi'u modelu ar Godau Ymarfer PACE ac yn dilyn yr un fformat a strwythur. Dan Ddeddf Estraddodi 2003 ni cheir pwerau i stopio a chwilio na chynnal cyfweliadau. Felly nid yw'r Codau hyn yn cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i Godau A ac E PACE.

**Cod B**

**Cod Ymarfer ar gyfer chwiliad o eiddo gan swyddogion yr heddlu a chipio, cadw, defnyddio a throsglwyddo eiddo sy'n cael ei ganfod gan swyddogion yr heddlu ar unigolion neu mewn eiddo**

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn delio â phwerau'r heddlu mewn achosion estraddodi wrth wneud:

- chwiliad o eiddo;
- cipio a chadw eiddo sy'n cael ei ganfod mewn eiddo ac ar unigolion;
- trosglwyddo deunydd a gipiwyd i'r awdurdod neu diriogaeth sy'n gwneud cais am estraddodi.

1.2 Gellir defnyddio'r pwerau hyn i ddod o hyd i:

- unigolion y gwnaed cais iddynt gael eu hestraddodi;
- tystiolaeth er mwyn adnabod unigolyn y gwnaed cais amdano;
- eiddo a deunydd yn ymwneud â'r drosedd (troseddau) estraddodi sy'n reswm dros chwilio am unigolyn.

1.3 Dim ond ar gyfer dod o hyd i dystiolaeth o'r drosedd estraddodi i'w defnyddio wrth erlyn unigolyn a gyhuddir o drosedd estraddodi y gellir cynnal chwiliadau dan bwerau yn Neddf Estraddodi 2003 (y Ddeddf). Ni all swyddogion ymchwilio troseddau ar ran yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud y cais, ar wahân i siarad ag unigolion er mwyn cynorthwyo i sefydlu perchnogaeth neu gysylltiad â'r eiddo. Gellir cipio eitemau sy'n ymwneud ag adnabod unigolyn neu'n ymwneud â throseddau ar wahân i'r drosedd estraddodi, os deuir o hyd iddynt, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf a'r Cod hwn. Nid yw pwerau'r heddlu mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd yn y DU yn cael eu cyfyngu gan y paragraff hwn.

1.4 Mae’r hawl i breifatrwydd a pharch i eiddo personol yn egwyddorion allweddol yn Neddf Iawnderau Dynol 1998[2]. Dylid cyfiawnhau pwerau mynediad, chwilio a chipio yn llawn ac yn glir cyn eu defnyddio, oherwydd gallant amharu’n arwyddocaol ar breifatrwydd unigolyn. Dylai swyddogion ystyried a ellir bodloni’r amcanion angenrheidiol trwy ddulliau llai ymwthiol.

1.5 Dylai swyddogion yr heddlu ym mhob achos:

- weithredu eu pwerau gyda chwrteisi a pharch tuag at yr unigolion a’r eiddo;
- defnyddio grym rhesymol pan ystyrir bod angen hynny yn unig ac yn gymesur â’r amgylchiadau.

## 2 Cyffredinol

2.1 Rhaid i’r Cod hwn fod ar gael yn hawdd ym mhob un o orsafoedd yr heddlu er mwyn i’r canlynol allu ei ddefnyddio:

- swyddogion yr heddlu;
- unigolion dan gadwad;
- aelodau’r cyhoedd.

2.2 Gall unrhyw swyddog yr heddlu wneud cais i ynad heddwch neu farnwr cylchdaith am warant chwiliad dan y Ddeddf.

2.3 Nid oes dim dan y Ddeddf yn rhoi hawl i swyddog yr heddlu i gipio a didoli deunydd sy’n destun braint gyfreithiol. Mae egwyddor braint gyfreithiol yr un mor berthnasol i ddeunydd sy’n tarddu neu wedi’i anfon o dramor.

2.4 At ddibenion y Cod hwn, mae ‘eiddo’, yn cyfateb i’r diffiniad yn Adran 23 PACE, ac yn cynnwys unrhyw le, cerbyd, llong, awyren, hofranlong, pabell neu strwythur symudol ac unrhyw safle alltraeth fel y diffiniwyd yn Neddf Gweithiau Mwynau (Safleoedd Alltraeth) 1971[3], Adran 1.

2.5 Pan fo’r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gael awdurdod neu gytundeb ymlaen llaw gan swyddog sy’n arolygodd neu’n uwch arolygydd o leiaf, gall rhingyll neu brif arolygydd gydag awdurdod i gyflawni swyddogaeth swyddog uwch dan Adran 107 PACE roi’r awdurdod hwnnw. Ar gyfer swyddogion y tollau yr awdurdod sydd gyfwerth ag arolygydd neu uwch arolygydd yr heddlu yw tollau Band 7 a Band 9.

2.6 Nid yw’r Cod hwn yn berthnasol i weithredu pŵer statudol i gael mynediad i eiddo neu i archwilio nwyddau, offer neu weithdrefnau os nad yw gweithredu’r pŵer hwnnw yn dibynnu ar fodolaeth sail dros amau bod trosedd wedi’i

---

[2] Pennod 42
[3] Pennod 61

chyflawni o bosib ac nad oes gan y sawl sy’n gweithredu’r pŵer sail rhesymol dros amheuaeth o’r fath.

2.7 Lle mae’n ofynnol cael cofnodion ysgrifenedig o chwiliadau dylid eu rhoi yn y cofnod chwiliad, neu os nad yw hynny’n ymarferol, yn llyfr poced y swyddog sy’n cofnodi neu ar ffurflenni pwrpasol.

2.8 At ddibenion y Cod hwn, nid oes angen cofnodi neu ddatgelu pwy yw’r swyddogion (neu unrhyw un sy’n eu cwmni yn ystod chwiliad) os yw’r swyddogion o’r farn resymol y gallai cofnodi neu ddatgelu eu henwau eu peryglu. Yn yr achosion hyn dylai swyddogion ddefnyddio gwarant neu rifau adnabod eraill ac enw eu swyddfa heddlu.

2.9 Mae paragraffau 2.11 – 2.13 Cod B PACE yn berthnasol wrth weithredu pwerau dan y Cod hwn.

## 3 Gwarantau chwiliad a gorchmynion dangos

### (a) Cyn gwneud cais

### *Gwarantau chwiliad a chipio neu orchmynion dangos*

3.1 Pan fo gwybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod neu’r diriogaeth sy’n gwneud cais i’w weld yn cyfiawnhau cais, rhaid i’r swyddog gymryd camau rhesymol i wirio bod y wybodaeth yn gywir, yn ddiweddar a heb gael ei darparu yn faleisus neu yn anghyfrifol.

3.2 Bydd y swyddog yn sicrhau mor benodol â phosibl beth yw natur y gwrthrychau dan sylw a’u lleoliad a gwneud ymholiadau rhesymol i ddod o hyd i unrhyw wybodaeth berthnasol.

3.3 Gall unrhyw swyddog wneud cais i:

- ynad heddwch am warant chwiliad (Adran 156);
- barnwr cylchdaith (barnwr Llys y Goron yng Ngogledd Iwerddon) am orchymyn dangos (Adran 157);
- barnwr cylchdaith (barnwr Llys y Goron yng Ngogledd Iwerddon) am warant i gynnal chwiliad am ddeunydd gweithdrefn arbennig neu ddeunydd wedi’i wahardd (Adran 160).

3.4 Rhaid ategu ceisiadau gydag awdurdod ysgrifenedig wedi’i lofnodi gan swyddog sy’n arolygydd neu’n uwch. Os yw’r achos yn un brys ac nad oes arolygydd neu swyddog uwch ar gael yn hawdd, gall y swyddog uchaf ei swydd sydd ar ddyletswydd roi awdurdod ysgrifenedig.

3.5 Ym mhob achos, cyn gwneud cais dan Adrannau 156, 157 neu 160 y Ddeddf, dylai swyddogion gyfeirio at God B 3.2 a 3.3 PACE.

3.6 Ar wahân i achos brys, os oes rheswm dros gredu y gallai chwiliad gael effaith andwyol ar y berthynas rhwng yr heddlu sy'n gweithredu'r warant a'r gymuned leol, dylai'r swyddog ymgynghori â swyddog cyswllt yr heddlu/y gymuned:

(a) cyn y chwiliad; neu

(b) mewn achosion brys, cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y chwiliad.

Ym mhob achos dylid ystyried cynnal asesiad o effaith ar y gymuned lle bo'n briodol.

**(b) Gwneud cais**

### *Gwarantau chwiliad a chipio*

3.7 Rhaid i gais am warant chwiliad gael ei ategu'n ysgrifenedig a rhaid iddo nodi:

(a) dan ba adran y Ddeddf y gwneir y cais (Adran 156);

(b) yr eiddo i gael ei chwilio;

(c) y deunydd, neu ddisgrifiad o'r deunydd y chwilir amdano, a rhaid iddo fod:

(i) yn ddeunydd yn ymwneud â'r drosedd estraddodi; ac

(ii) y credir ei fod wedi'i leoli yn yr eiddo a enwir yn y cais;

(d) enw'r sawl y gwneir cais iddo gael ei estraddodi;

(e) enw a Chategori (e.e. 1 neu 2) y diriogaeth sy'n gwneud cais;

(f) y drosedd estraddodi y mae'r unigolyn yn cael ei gyhuddo ohoni; ac

(g) os yn berthnasol, cais am warant i roi awdurdod i unigolyn neu unigolion i fynd gyda'r swyddog sy'n gweithredu'r warant.

3.8 Cyn caniatáu cais, rhaid i'r ynad heddwch fod yn fodlon:

(a) bod y drosedd a nodwyd yn y cais yn drosedd estraddodi ac wedi'i chyflawni gan yr unigolyn y gwneir cais iddo gael ei estraddodi;

(b) bod yr unigolyn yn y DU neu ar ei ffordd i'r DU;

(c) bod y deunydd yn debygol o gael ei dderbyn fel tystiolaeth o'r drosedd mewn llys yn rhan berthnasol y DU lle mae gan yr ynad heddwch awdurdod;

(d) nad yw'n ymarferol neu'n bosibl cael mynediad i eiddo neu gael mynediad i ddeunydd heb warant;

(e) nad yw'r deunydd y chwilir amdano yn cynnwys eitemau sy'n destun braint gyfreithiol, yn ddeunydd wedi'i wahardd neu'n ddeunydd gweithdrefn arbennig;

(f) na ellir dod o hyd i'r deunydd trwy ddull arall neu ddull llai ymwthiol;

(g) nad yw'n ymarferol i gysylltu â'r unigolyn sydd â hawl i ganiatáu mynediad i'r eiddo;

(h) nad yw'n ymarferol i gysylltu â'r unigolyn sydd â'r hawl i ganiatáu mynediad i'r deunydd y chwilir amdano, hyd yn oed os gellir cael mynediad i'r eiddo;

(i) na cheir hawl i gael mynediad i'r eiddo oni bai fod gwarant yn cael ei dangos; ac

(j) y gellir rhwystro neu amharu'n ddifrifol ar y chwiliad oni bai y gall y swyddog gael mynediad i eiddo yn union ar ôl cyrraedd yno.

*Gorchmynion dangos*

3.9 Rhaid i gais am orchymyn dangos i farnwr cylchdaith gael ei gefnogi'n ysgrifenedig a rhaid iddo nodi:

(a) dan ba adran o'r Ddeddf y gwneir y cais (Adran 157);

(b) y deunydd neu ddisgrifiad o'r deunydd y chwilir amdano;

(c) bod y deunydd yn ddeunydd gweithdrefn arbennig neu'n ddeunydd wedi'i wahardd;

(d) yr eiddo lle mae'r deunydd wedi'i leoli;

(e) enw'r sawl y tybir ei fod yn meddu ar y deunydd neu'n rheoli'r deunydd;

(f) enw'r sawl y gwneir cais iddo gael ei estraddodi;

(g) enw Categori (e.e. 1 neu 2) y diriogaeth sy'n gwneud cais;

(h) y drosedd estraddodi y mae'r unigolyn yn cael ei gyhuddo ohoni; ac

(i) os yn berthnasol, cais am orchymyn i roi awdurdod i unigolyn neu unigolion i fynd gyda'r swyddog sy'n gweithredu'r gorchymyn.

3.10 Cyn caniatáu cais rhaid i’r barnwr cylchdaith fod yn fodlon:

(a) Bod yna sail resymol dros gredu:

(i) bod y drosedd a nodwyd yn y cais yn drosedd estraddodi ac wedi’i chyflawni gan yr unigolyn y gwneir cais i’w estraddodi;

(ii) bod yr unigolyn yn y DU neu ar ei ffordd i’r DU;

(iii) bod yna ddeunydd sy’n cynnwys neu sy’n ddeunydd gweithdrefn arbennig neu ddeunydd wedi’i wahardd ar yr eiddo a nodwyd yn y cais; a

(iv) bod y deunydd yn debygol o gael ei dderbyn fel tystiolaeth o’r drosedd mewn llys yn rhan berthnasol y DU lle mae gan y barnwr cylchdaith awdurdod;

(b) yr ymddengys nad yw dulliau eraill o gael gafael ar y deunydd wedi llwyddo, neu heb eu gweithredu oherwydd y byddent yn siŵr o fethu; a

(c) bod cael gafael ar y deunydd er lles y cyhoedd (a bod hyn yn bwysicach na’r anfanteision i’r unigolyn neu’r sefydliad y gwneir y gorchymyn yn ei erbyn).

*Gwarantau chwiliad: deunydd gweithdrefn arbennig a deunydd wedi’i wahardd*

3.11 Rhaid i gais am warant chwiliad am ddeunydd gweithdrefn arbennig neu ddeunydd wedi’i wahardd i farnwr cylchdaith gael ei gefnogi’n ysgrifenedig a rhaid iddo nodi:

(a) dan ba adran o’r Ddeddf y gwneir y cais (Adran 160);

(b) y deunydd neu ddisgrifiad o’r deunydd y chwilir amdano;

(c) bod y deunydd yn ddeunydd gweithdrefn arbennig neu’n ddeunydd wedi’i wahardd;

(d) yr eiddo i gael ei chwilio;

(e) enw’r sawl y gwneir cais iddo gael ei estraddodi;

(f) enw a Chategori (e.e. 1 neu 2) y diriogaeth sy’n gwneud cais;

(g) y drosedd estraddodi y mae’r unigolyn yn cael ei gyhuddo ohoni; ac

(h) os yn berthnasol, cais am warant i roi awdurdod i unigolyn neu unigolion i fynd gyda’r swyddog sy’n gweithredu’r gorchymyn.

3.12 Cyn caniatáu cais, rhaid i'r barnwr cylchdaith fod yn fodlon:

(a) bod y gofynion ar gyfer gwneud gorchymyn dangos (ym mharagraff 3.10 (a) – (c) uchod) wedi'u bodloni;

a hefyd:

(b) nad yw'n ymarferol cysylltu â'r unigolyn sydd â hawl i roi mynediad i'r eiddo;

(c) nad yw'n ymarferol i gysylltu â'r unigolyn sydd â'r hawl i ganiatáu mynediad i'r deunydd a geisir, hyd yn oed os gellir cael mynediad i'r eiddo;

(d) bod y deunydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n destun cyfyngiad ar ddatgelu neu ymrwymiad i gyfrinachedd mewn deddfiad (gan gynnwys un a basiwyd wedi Deddf Estraddodi 2003) ac yn debygol o gael ei ddatgelu yn groes i'r cyfyngiad neu'r ymrwymiad os na fydd gwarant yn cael ei rhoi.

3.13 Gall y warant chwiliad neu orchymyn dangos roi awdurdod i unrhyw unigolyn cymwys neu fedrus, gan gynnwys cynrychiolwyr yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais, i fynd gyda'r swyddog sy'n gweithredu'r warant, os yw eu presenoldeb yn debygol o gynorthwyo, er enghraifft, i ddod o hyd neu i adnabod y deunydd y chwilir amdano

3.14 Nid oes gan yr unigolyn (unigolion) sy'n mynd gyda'r swyddog hawl i orfodi mynediad neu i chwilio am eiddo neu ei gipio, ond mae'n rhoi'r hawl iddynt fod ar yr eiddo yn ystod y chwiliad heb ganiatâd y deiliad.

3.15 Os gwrthodir cais am warant chwiliad a chipio neu orchymyn dangos, ni ellir gwneud cais pellach ar gais yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais mewn perthynas â'r un eiddo neu ddeunydd, oni bai ei fod wedi'i gefnogi gan resymau ychwanegol.

## 4 Mynediad heb warant – pwerau arbennig

### (a) Arestio (ac ati)

### *Mynediad i eiddo a chwiliad er mwyn arestio*

4.1 Dan Adran 161 y Ddeddf, gall swyddog gael mynediad a chynnal chwiliad o eiddo er mwyn gweithredu pŵer arestio dan Adran 3, 5, 71 a 73, os oes gan y swyddog sail resymol dros gredu fod yr unigolyn y gwnaed cais iddo gael ei estraddodi ar yr eiddo.

### (b) Chwiliad eiddo lle gwneir yr arestiad neu lle'r oedd yr unigolyn a arestiwyd yn union cyn ei arestio

*Mynediad i eiddo a chynnal chwiliad wrth arestio*

4.2 Dan Adran 162 y Ddeddf, os yw unigolyn wedi'i arestio dan unrhyw rai o'r pwerau dan y Ddeddf mewn unrhyw fan arall heblaw swyddfa'r heddlu, gall swyddog:

(a) gael mynediad a chynnal chwiliad o eiddo lle'r oedd yr unigolyn:

- adeg ei arestio; neu
- yn union cyn ei arestio

os oes gan y swyddog sail resymol dros gredu bod yna dystiolaeth ar yr eiddo sy'n ymwneud â:

- y drosedd estraddodi (os nad yw'r unigolyn wedi'i gael yn euog o'r drosedd); neu
- gwybod pwy yw'r unigolyn.

## *Chwilio unigolyn wrth ei arestio*

4.3 Dan Adran 163 y Ddeddf, os yw unigolyn wedi'i arestio dan unrhyw rai o bwerau'r Ddeddf, mewn unrhyw fan heblaw swyddfa'r heddlu, gall swyddog chwilio'r unigolyn os oes gan y swyddog sail resymol dros gredu:

(a) y gall yr unigolyn fod yn berygl iddo'i hun neu i eraill;

(b) y gall yr unigolyn fod wedi cuddio unrhyw beth a allai:

- gael ei ddefnyddio fel cymorth i ddianc o ddalfa gyfreithlon;
- fod yn dystiolaeth mewn perthynas â throsedd;
- fod yn dystiolaeth mewn perthynas ag adnabod yr unigolyn.

4.4 At ddibenion yr adran hon, mae 'trosedd' yn cynnwys:

- y drosedd (troseddau) estraddodi;
- trosedd(au) a gyflawnwyd yn y DU;
- trosedd(au) a gyflawnwyd dramor.

4.5 Cyn cynnal chwiliad o unigolyn, rhaid i’r swyddog gymryd camau rhesymol i roi’r wybodaeth ganlynol i’r sawl sy’n cael ei chwilio:

(a) ei fod yn destun chwiliad cyffredin (*non-intimate*);

(b) enw’r swyddog ac enw swyddfa’r heddlu y mae’r swyddog yn perthyn iddi;

(c) y pŵer chwiliad cyfreithiol sy’n cael ei weithredu (dan Adran 163 y Ddeddf);

(d) eglurhad clir o:

(i) bwrpas y chwiliad o ran y gwrthrych(au) y mae gan swyddog bŵer i chwilio amdanynt; a

(ii) rheswm dros y chwiliad.

4.6 Os nad yw’r sawl sydd i’w chwilio i’w weld yn deall yr hyn sy’n cael ei ddweud, neu os oes unrhyw amheuaeth am allu’r unigolyn i ddeall Saesneg, rhaid i’r swyddog gymryd camau rhesymol i dynnu sylw’r unigolyn at wybodaeth ynglŷn â hawliau’r unigolyn ac unrhyw rai o ddarpariaethau perthnasol y Cod hwn. Os yw’r unigolyn yn fyddar neu os nad yw’n deall Saesneg ac mae yng nghwmni rhywun arall, yna rhaid i’r swyddog geisio canfod a all yr unigolyn hwnnw gyfieithu neu gynorthwyo’r swyddog mewn rhyw ffordd arall.

4.7 Os nad yw swyddogion yr heddlu yn gwisgo gwisg swyddogol rhaid iddynt ddangos eu cardiau gwarant. Os nad yw swyddogion y tollau mewn gwisg swyddogol rhaid iddynt ddangos eu cardiau adnabod.

4.8 Lle mae’n ymarferol rhaid cynnal chwiliad yn y man neu gerllaw’r man lle’r arestiwyd yr unigolyn.

4.9 Dan Adran 163(5)(a) ni all swyddog ofyn i unigolyn dynnu dillad yn gyhoeddus, ar wahân i gôt fawr, siaced neu fenig.

4.10 Dan Adran 163(5)(b) mae gan swyddog awdurdod i chwilio ceg unigolyn.

4.11 Nis oes dim yn yr Adran hon yn effeithio ar y pwerau a roddir gan Adran 43 Deddf Terfysgaeth 2000 (c 11).

## (c) Chwiliad eiddo sydd ym meddiant neu’n cael ei reoli gan y sawl a arestiwyd

### *Mynediad a chwilio’r eiddo wedi arestio*

4.12 Dan Adran 164 y Ddeddf, os yw unigolyn wedi’i arestio dan unrhyw rai o bwerau’r Ddeddf, gall swyddog fynd i mewn a chwilio unrhyw eiddo sydd ym

meddiant neu'n cael ei reoli gan yr unigolyn a arestiwyd, os oes gan swyddog sail resymol dros amau bod tystiolaeth ar yr eiddo mewn perthynas â:

(a) y drosedd estraddodi (os nad yw'r unigolyn wedi'i gael yn euog o'r drosedd);

(b) gwybod pwy yw'r unigolyn.

4.13 Cyn mynd i mewn a chwilio eiddo, rhaid i'r swyddog gael awdurdod ysgrifenedig gan swyddog sy'n arolygydd neu'n uwch. Os yw'r achos yn un brys ac nad oes arolygydd neu swyddog uwch ar gael yn hawdd, gall y swyddog uchaf ei swydd sydd ar ddyletswydd roi'r awdurdod ysgrifenedig.

4.14 Dylid rhoi'r awdurdod yn unig pan fo'r swyddog sy'n awdurdodi yn fodlon bod y sail angenrheidiol (ym mharagraff 4.12 uchod) yn bodoli. Os yn bosibl, dylai'r swyddog sy'n awdurdodi gofnodi'r awdurdod ar yr Hysbysiad o Bwerau a Hawliau a llofnodi'r Hysbysiad. Dylid nodi'r rheswm am y chwiliad a natur y dystiolaeth y chwilir amdani yn:

- y cofnod cadwraeth, os oes un; neu fel arall
- llyfr poced y swyddog;
- cofnod y chwiliad.

4.15 Nid oes angen awdurdod cyn chwiliad:

(a) os cynhelir y chwiliad cyn mynd â'r sawl a arestiwyd i swyddfa'r heddlu; ac

(b) os oes rhaid i'r sawl a arestiwyd fod mewn man arall ar wahân i swyddfa'r heddlu er mwyn gweithredu'r pŵer i chwilio yn effeithiol.

4.16 Os na chafwyd awdurdod am y rhesymau yn Adran 4.14 uchod, rhaid dweud wrth swyddog sy'n arolygydd neu'n uwch bod chwiliad wedi'i gynnal, cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl ei gynnal.

**5 Chwiliad gyda chaniatâd**

5.1 Dylai swyddogion ddilyn Cod B5 PACE a'r Canllawiau cyfatebol.

**6 Chwilio eiddo – ystyriaethau cyffredinol**

**(a) Amser y chwiliadau**

6.1 Dylai swyddogion ddilyn y canllawiau yng Nghod B 6.1 – 6.3 PACE.

**(b) Mynediad heblaw gyda chaniatâd**

6.2 Dylai swyddogion ddilyn y canllawiau yng Nghod B6.4 PACE.

**(c) Hysbysiad o Bwerau a Hawliau**

6.3 Os yw swyddog yn cynnal chwiliad o eiddo y mae'r Cod yn berthnasol iddo, rhaid i'r swyddog, heblaw bod hynny'n anymarferol, roi copi o'r Hysbysiad i'r deilydd:

(a) sy'n nodi y cynhelir y chwiliad dan warant, gyda chaniatâd neu wrth weithredu'r pwerau a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 4.1, 4.2, 4.12 – 4.15. Noder: rhaid i fformat yr Hysbysiad gynnwys darpariaeth ar gyfer nodi awdurdod, gweler paragraff 4.14;

(b) sy'n crynhoi i ba raddau y mae pwerau i chwilio a chipio wedi'u rhoi yn ôl Ddeddf Estraddodi 2003;

(c) sy'n egluro hawliau'r deilydd a pherchennog yr eiddo i'w gipio;

(d) sy'n egluro y gall iawndal fod yn daladwy mewn achosion priodol am ddifrod wrth fynd i mewn a chwilio eiddo, a rhoi'r cyfeiriad lle dylid anfon y cais am iawndal;

(e) sy'n nodi bod y Cod hwn ar gael mewn unrhyw un o swyddfeydd yr heddlu.

**(d) Cynnal chwiliadau**

6.4 Gellir chwilio eiddo i'r graddau sy'n rhesymol angenrheidiol yn unig er mwyn canfod y deunydd neu'r unigolyn y chwilir amdano, mewn perthynas â'r hyn y mae pŵer ar gael ar ei gyfer.

6.5 Os oes angen i'r sawl dan gadwad fod yn bresennol er mwyn hwyluso chwiliad ar ôl i'r unigolyn hwnnw gael ei arestio a'i gadw yn swyddfa'r heddlu, gall yr unigolyn neu ei gynrychiolydd cyfreithiol fod yn bresennol yn y chwiliad.

6.6 Pe bai eiddo sy'n cael ei chwilio yn cynnwys dau neu fwy o anheddau ar wahân, dim ond yr anheddau, er enghraifft, lle gwaed yr arestiad neu lle'r oedd yr unigolyn yn union cyn cael ei arestio neu unrhyw ardal gymunedol o'r eiddo, y caiff swyddog fynd i mewn iddynt a'u chwilio.

6.7 Dim ond lle mae'n angenrheidiol adnabod neu ganfod perchnogaeth eiddo, i hyrwyddo'r gwaith o gynnal chwiliad cywir ac effeithiol neu i geisio dilysu cofnod ysgrifenedig y caiff swyddogion holi unigolion.

6.8 Ym mhob ffordd arall, dylai swyddogion ddilyn y canllawiau yng Nghod B 6.9 - 6.12 PACE wrth gynnal chwiliad.

**(e) Gadael eiddo**

6.9 Dylai swyddogion ddilyn y canllawiau yng Nghod B6.13 PACE.

## 7 Cipio a chadw

### (a) Cipio

7.1 Gall swyddog sy'n chwilio unigolyn neu eiddo dan y Ddeddf gipio a chadw unrhyw beth:

(a) sydd wedi'i gwmpasu gan warant;

(b) y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu ei fod yn dystiolaeth o drosedd neu sydd wedi'i gael o ganlyniad i gyflawni trosedd yn y DU, ond dim ond os yw'r angenrheidiol cipio i atal yr eitemau rhag cael eu cuddio, eu colli, eu difrodi, eu newid neu eu dinistrio;

(c) sydd wedi'i gwmpasu gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, fel y'i diwygiwyd.

7.2 Gall swyddogion sy'n chwilio unigolion neu eiddo dan Adrannau 161, 162, 163 a 164 gipio a chadw unrhyw beth y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu ei fod yn dystiolaeth o gyflawni trosedd neu a gafwyd o ganlyniad i gyflawni trosedd estraddodi neu drosedd a gyflawnwyd y tu allan i'r DU, ond dim ond os yw'n angenrheidiol cipio i atal yr eitemau rhag cael eu cuddio, eu colli, eu difrodi, eu newid neu eu dinistrio.

7.3 Gall swyddogion sy'n chwilio unigolyn neu eiddo wrth arestio neu wedi hynny dan Adrannau 162, 163 neu 164 gipio a chadw deunydd sy'n ymwneud ag adnabod unigolyn, ond dim ond os yw'n angenrheidiol cipio er mwyn atal yr eitemau rhag cael eu cuddio, eu colli, eu difrodi, eu newid neu eu dinistrio.

7.4 Hefyd, gall swyddog sy'n chwilio unigolyn gipio a chadw unrhyw eitem, os oes yna sail resymol dros gredu:

(a) y gall yr unigolyn ei defnyddio i achosi niwed corfforol iddo'i hyn neu i rywun arall;

(b) y gall yr unigolyn ei defnyddio fel cymorth i ddianc o gadwraeth gyfreithlon.

7.5 Ni ellir cipio unrhyw eitem y mae gan swyddog sail resymol dros gredu ei fod yn destun braint gyfreithiol fel y diffinnir yn Adran 10 PACE, ar wahân i dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001, Rhan 2.

7.6 Gall swyddogion benderfynu nad yw'n briodol cipio eiddo neu gallent fod am dynnu llun, delwedd neu gopïo unrhyw ddogfen neu wrthrych y mae ganddynt y pŵer i'w gipio, ac os felly mae darpariaethau Cod B 7.4 – 7.6 PACE yn berthnasol.

7.7 Er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaeth statudol dim ond pan na fyddai llun neu gopi yn ddigonol (Adran 22 (4) PACE) y dylai swyddog gadw dogfen neu wrthrych arall gwreiddiol.

*Gwybodaeth gyfrifiadurol*

7.8 Dan Adran 159 y Ddeddf, os yw'r deunydd a nodir mewn gorchymyn dangos yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei storio ar ffurf electronig, rhaid darparu'r deunydd naill ai mewn ffurf:

(a) y gellir ei gymryd ymaith neu ffurf y gellir cael mynediad iddo ac sy'n weladwy ac yn ddarllenadwy; neu

(b) un sy'n galluogi iddo allu cael ei gynhyrchu'n hawdd mewn ffurf weladwy a darllenadwy (er enghraifft argraffiad cyfrifiadurol neu ddisg gyfrifiadurol symudol).

**(b) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001: Gweithdrefnau penodol ar gyfer pwerau cipio a didoli**

7.9 Mae pwerau i gipio eiddo o safle neu oddi ar unigolyn i'w ddidoli neu ei archwilio rhywle arall yn ymestyn i chwiliadau a gynhelir dan y Ddeddf. Dylai swyddogion gydymffurfio â Chod B 7.7 – 7.13 PACE wrth weithredu neu ystyried gweithredu'r pwerau hyn.

7.10 Gall unrhyw unigolyn cymwys neu fedrus, gan gynnwys cynrychiolwyr priodol yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais, fod yn bresennol wrth chwilio a didoli, ar yr amod:

(a) (os yw'r chwiliad yn cael ei gynnal dan warant) bod y warant sy'n awdurdodi mynediad i eiddo hefyd yn rhoi awdurdod i'r unigolyn hwnnw fynd gyda'r swyddog sy'n gweithredu'r warant; a

(b) bod angen i'r unigolyn hwnnw fod yn bresennol er mwyn bod o gymorth i adnabod unrhyw ddeunydd y chwilir amdano yn gywir neu i roi cyngor lle mae ffurfiau arbennig o dystiolaeth yn fwyaf tebygol o gael eu canfod.

7.11 Ni all yr unigolyn (unigolion) gymryd rhan yn y gwaith o ddidoli, ond gallant fod yn bresennol ar y pryd.

7.12 Gall cynrychiolydd priodol gynnwys cynrychiolydd cyfreithiol yr unigolyn.

**(c) Cadw**

7.13 Gellir cadw deunydd sy'n cael ei gipio neu ei ddangos dan Adrannau 156, 157, 160, 161, 162, 163 neu 164 y Ddeddf:

(a) er mwyn bod o gymorth i ddod i wybod pwy yw'r sawl a arestiwyd;

(b) i'w ddefnyddio fel tystiolaeth lle ceisir estraddodi unigolyn at ddibenion ymddangos o flaen llys a'i erlyn am y drosedd estraddodi;

(c) er mwyn hwyluso eu defnyddio mewn unrhyw weithrediadau sy'n ymwneud ag unrhyw beth y mae'r deunydd â chyswllt anorfod ag ef;

(d) ar gyfer archwiliad fforensig neu ymchwiliad arall mewn cysylltiad â'r drosedd a gyflawnwyd yn y Deyrnas Unedig neu dramor (gan gynnwys trosedd estraddodi);

(e) er mwyn canfod pwy yw'r perchennog cyfreithlon lle mae sail resymol dros gredu iddo gael ei ddwyn neu ei gaffael o ganlyniad i gyflawni trosedd.

7.14 Dylid tynnu llun eitemau darfodus a gipiwyd a chadw copi o'r llun fel tystiolaeth.

7.15 Ni ddylid cadw eiddo dan baragraff 7.13 (a), (b), (c) neu (d) pe byddai copi neu ddelwedd yn ddigonol.

7.16 Dylid cadw deunydd a gipiwyd mewn perthynas ag estraddodi yn unig tan:

(a) y rhoddir gorchymyn i estraddodi'r unigolyn ac mae'r gweithdrefnau estraddodi wedi'u cwblhau; neu

(b) bod yr unigolyn yn cael ei ryddhau; neu

(c) bod y cais am estraddodi yn cael ei wrthod neu ei dynnu'n ôl; neu

(d) y penderfynir nad oes angen y deunydd bellach ar gyfer erlyn am y drosedd estraddodi.

7.17 Os yw paragraff 7.16 (b), (c) neu (d) yn berthnasol, dylid dychwelyd deunydd a gipiwyd i'w berchennog cyfreithlon lle bo modd.

*Tystiolaeth i drosedd y DU*

7.18 Mae cadw a defnyddio eiddo a gipiwyd mewn perthynas â throsedd yn y DU yn cael ei reoli gan ddarpariaethau Cod B, 7.14 – 7.17 PACE.

**(d) Hawliau Perchnogion**

7.19 Os yw eiddo yn cael ei gadw dan y Ddeddf, rhaid darparu rhestr neu ddisgrifiad o'r eiddo, ar gais, i'r sawl oedd yn meddu arno neu'n ei reoli yn union cyn ei gipio, o fewn amser rhesymol.

7.20 Mae Cod B 7.17 PACE yn berthnasol i bob eiddo sy'n cael ei gipio dan y Ddeddf.

## 8 Trosglwyddo

8.1 Dan Adran 172, gall swyddog drosglwyddo unrhyw beth a gipiwyd yn gyfreithlon neu a ddangoswyd dan Ran 4 y Ddeddf i unigolyn sydd, neu sy'n gweithredu ar ran, yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais ac sydd â swyddogaethau sy'n ei gwneud yn briodol i'r deunydd gael ei drosglwyddo iddo ef neu hi.

8.2 Cyfrifoldeb y swyddog sy'n gyfrifol am y chwiliad yw sicrhau bod deunydd sy'n cael ei gipio yn cael ei storio'n ddiogel ac yn gyflawn tan y caiff ei drosglwyddo i'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais neu yn cael ei ddychwelyd i'r perchennog cyfreithlon.

8.3 Ni all swyddogion drosglwyddo:

(a) deunydd gan gynnwys copïau luniau neu o'r deunyddiau, a gipiwyd mewn perthynas â'r drosedd estraddodi; neu

(b) unrhyw beth a all gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth wrth erlyn yr unigolyn am y drosedd estraddodi,

i'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais tan fod y gorchymyn i estraddodi wedi'i wneud a'r holl weithrediadau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r estraddodi wedi'u cwblhau. Ni ystyrir fod y gweithrediadau wedi'u cwblhau os yw achos i estraddodi yn cael ei ohirio.

8.4 Caniateir ceisiadau gan gynrychiolwyr priodol yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais i gael gweld eiddo wrth ymweld â'r DU.

### *Y Broses Drosglwyddo*

8.5 Ar ôl rhoi'r gorchymyn i estraddodi ac i'r gweithrediadau estraddodi ddod i ben, rhaid i swyddog drosglwyddo'r deunydd a gipiwyd i gynrychiolwyr yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais, cyn gynted ag y bo'n ymarferol:

(a) yn bersonol ar y pryd ac yn y lle mae'r unigolyn yn cael ei ildio i gynrychiolwyr yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais;

(b) yn bersonol gan y swyddog sydd wedi derbyn cyfrifoldeb am gadw'r eiddo, mewn man y cytunwyd arno gan gynrychiolwyr yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais; neu

(c) trwy ddull arall, gyda chaniatâd yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais.

8.6 Rhaid i swyddogion fod yn fodlon mai'r unigolyn y mae'r deunydd yn cael ei drosglwyddo iddo yw'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais neu sy'n gweithredu ar ei ran ac sydd â'r swyddogaethau i'w gwneud yn briodol i'r deunydd gael ei drosglwyddo iddo ef neu hi.

8.7 Os nad yw'n ymarferol i ddeunydd gael ei ddarparu'n bersonol adeg yr ildio, dylai'r swyddog sydd wedi derbyn cyfrifoldeb am y deunydd drefnu i'r deunydd gael ei gasglu gan gynrychiolwyr yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais.

8.8 Gellir trosglwyddo deunydd i'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais cyn i'r unigolyn gael ei drosglwyddo i'r awdurdodau priodol gan yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais, cyn gynted ag y bydd y gweithrediadau estraddodi wedi dod i ben.

8.9 Os yw deunydd yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais ac y gwelir yn hwyrach nad oes ei angen, nid yw'n ofynnol i heddlu'r DU gynorthwyo i'w ddychwelyd, ond nid yw hyn yn eu rhwystro rhag darparu cymorth, lle bo modd.

8.10 Gellir trosglwyddo deunydd a gipiwyd mewn ymateb i gais gan, er enghraifft, diriogaeth Categori 1 neu Gategori 2 i'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais os yw'r sawl y gwneir cais iddo gael ei estraddodi yn marw neu'n dianc.

### *Deunydd sydd ei angen mewn erlyniadau eraill*

8.11 Gellir trosglwyddo deunydd a gipiwyd dan y Ddeddf y mae ei angen hefyd i'w ddefnyddio mewn erlyniadau eraill dramor i'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais amdano yn unig, os gwnaed cais am gymorth cyfreithiol cilyddol (MLA) a'i fod wedi'i gymeradwyo. Bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â Deddf Cyfiawnder Troseddol (Cydweithrediad Cydwladol) 1990.

8.12 Lle mae deunydd a gipiwyd dan y Ddeddf:

- yn dystiolaeth yn ymwneud â'r drosedd (troseddau) a gyflawnwyd dramor, ar wahân i'r drosedd estraddodi; neu
- mae ei angen ar gyfer erlyn unigolion dramor mewn perthynas â throsedd(au) ar wahân i'r drosedd estraddodi; neu
- mae ei angen mewn erlyniad dramor o gyd-ddiffynyddion yr unigolyn y gwneir cais am ei estraddodi,

dim ond os oes cais MLA am y deunydd hwnnw wedi'i dderbyn a'i gymeradwyo y gellir trosglwyddo deunydd i'r diriogaeth berthnasol.

8.13 Gellir trosglwyddo deunydd i’w ddefnyddio mewn gweithdrefnau dramor (ar wahân i erlyn am y drosedd estraddodi) cyn y bydd y gweithrediadau estraddodi wedi eu cwblhau, yn dilyn cymeradwyo cais MLA.

8.14 Dylid cadw deunydd a gipiwyd y mae ei angen hefyd ar gyfer erlyn am drosedd a gyflawnwyd yn y DU, yn y DU tan y bydd y gweithrediadau ar drosedd y DU wedi eu cwblhau.

## 9 Gweithredu ar ôl chwiliadau a chofrestri chwiliadau

9.1 Os yw safle yn cael ei chwilio dan y pwerau yn y Ddeddf, dylai’r swyddogion ddilyn y canllawiau yng Nghod B PACE, Adrannau 8 a 9 mewn perthynas â gweithredu ar ôl chwilio a chynnal cofrestr chwiliad.

9.2 Hefyd, cyfrifoldeb y swyddog sy’n gyfrifol am yr achos yw cynnal cofrestr o gopïau dyblyg o’r cofnodion yn y gofrestr chwiliad.

## *Cod C*

**Cod ymarfer ar gyfer arestio, cadw a thriniaeth unigolion dan gadwad dan Ddeddf Estraddodi 2003**

### 1 Cyffredinol

1.1 Mae'r Cod hwn yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer arestio, cadw a thriniaeth unigolion y chwilir amdanynt i'w hestraddodi. Mae'r rhain yn ategu'r canllawiau yng Nghod C PACE.

1.2 Nid yw'r atodiadau yn rhan o ddarpariaethau'r Cod hwn.

1.3 Rhaid i swyddog y ddalfa gyflawni swyddogaethau'r Cod hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Ni fydd swyddog y ddalfa yn torri'r Cod os gellir cyfiawnhau'r oedi a bod camau rhesymol yn cael eu cymryd o osgoi oedi diangen. Rhaid i'r cofnod cadwraeth ddangos pryd mae oedi wedi digwydd a'r rheswm pam.

1.4 Rhaid i'r Cod Ymarfer hwn fod ar gael yn hawdd ym mhob un o swyddfeydd yr heddlu er mwyn i'r canlynol allu ei ddefnyddio:

- swyddogion yr heddlu;
- unigolion dan gadwad;
- aelodau'r cyhoedd.

1.5 Wrth weithredu'r gweithdrefnau dan y Cod hwn, dylai swyddogion barchu darpariaethau Cod C 1.4 – 1.7, 3.12 – 3.20, 10.12 ac Atodiad E PACE mewn perthynas ag unigolion y tybir eu bod:

- ag anhwylder meddwl neu'n agored i niwed meddyliol mewn ffordd arall;
- dan 17 oed;
- yn ddall, â nam sylweddol ar eu golwg, yn fyddar, yn methu â darllen neu siarad, neu'n cael anhawster ar lafar oherwydd nam ar y lleferydd.

1.6 Os yw'r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybodaeth arbennig i unigolion, nid oes yn rhaid ei rhoi iddynt os, ar y pryd, nad ydynt yn gallu deall yr hyn sy'n cael ei ddweud, yn dreisgar neu'n debygol o fod yn dreisgar neu os oes angen sylw meddygol arnynt ar frys. Ond rhaid iddynt ei chael cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny.

1.7 Mae cyfeiriadau at swyddog y ddalfa yn cynnwys y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau swyddog y ddalfa.

1.8 Pan fo’r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gael awdurdod neu gytundeb ymlaen llaw gan un sy’n arolygydd neu’n uwch arolygydd o leiaf, gall rhingyll neu brif arolygydd sydd ag awdurdod i gyflawni swyddogaethau swyddog uwch dan Adran 107 PACE roi’r awdurdod hwnnw.

1.9 Mae’r Cod hwn yn berthnasol i bobl sydd yn y ddalfa yn swyddfeydd yr heddlu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd wedi’u harestio dan Ddeddf Estraddodi 2003.

1.10 Mae paragraffau 1.13 – 1.17 yng Nghod PACE sy’n ymwneud ag unigolion dynodedig a staff cynorthwyol sifilaidd yn berthnasol wrth weithredu’r Cod Ymarfer hwn.

1.11 Nid oes dim dan y Cod hwn yn caniatáu swyddog i gyfweld unigolyn a arestiwyd dan y Ddeddf.

## 2 Arestio

2.1 Rhaid i swyddog sy’n arestio unigolyn y chwilir amdano i’w estraddodi dan un o bwerau canlynol y Ddeddf (gweler Atodiad A):

- Adran 3: arestio dan warant ardystiedig Rhan 1;
- Adran 5: arestio dros dro dan Ran 1;
- Adran 71: gwarant arestio dan Ran 2, yn dilyn dilysu cais i estraddodi;
- Adran 73: arestio dros dro dan Ran 2;

gyflawni’r canlynol:

(a) Rhybuddio’r unigolyn fel hyn:

***“Nid oes rhaid ichi ddweud dim, ond gellir defnyddio unrhyw beth a ddywedwch fel tystiolaeth.”***

(b) *Rhoi copi o’r warant i’r unigolyn cyn gynted ag sy’n ymarferol ar ôl arestio.*

2.2 Nid yw mân newidiadau i eiriau unrhyw rybudd a roddir yn unol â’r Cod hwn yn cyfateb i dorri’r Cod hwn, os yw synnwyr y rhybudd perthnasol yn cael ei gadw.

2.3 Nid oes yn rhaid i’r swyddog sy’n arestio feddu ar warant Rhan 1 neu warant arestio ar adeg yr arestio.

2.4 Rhaid cyflwyno copïau o’r dogfennau canlynol i unigolyn sy’n cael ei arestio dan Adran 71 y Ddeddf:

- y papurau sy’n cynnwys y cais i estraddodi;

- y dystysgrif a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
- copi o unrhyw Orchymyn perthnasol.

2.5 Os nad yw'n ymarferol (e.e. am fod llawer iawn o bapurau yn gysylltiedig â'r cais) i gyflwyno'r cais i'r unigolyn adeg yr arestio, gall swyddogion roi copïau o'r dogfennau i gynghorwr cyfreithiol yr unigolyn cyn arestio neu wedi hynny, fel bo'n briodol.

2.6 Rhaid i'r swyddog gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr unigolyn yn deall ei fod yn cael ei arestio a pham ei fod yn cael ei arestio. Asesir yn llawn yr angen am gyfieithydd gan swyddog y ddalfa wrth gyrraedd swyddfa'r heddlu ac os oes angen, gellir ailadrodd y broses arestio er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn deall ei fod wedi'i arestio a pham.

## 3 Cofnodion cadwraeth

3.1 Rhaid agor cofnod cadwraeth ar wahân cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar gyfer pob unigolyn sy'n cael ei ddwyn i swyddfa'r heddlu wedi'i arestio dan y Ddeddf.

3.2 Mae Cod C paragraffau 2.2 – 2.7 PACE yn berthnasol.

3.3 Yn ogystal â'r darpariaethau penodol a amlinellwyd yng Nghod C PACE, rhaid i swyddog y ddalfa gofnodi'r wybodaeth ganlynol ar y cofnod cadwraeth:

(a) enw'r unigolyn ac unrhyw enwau eraill a ddefnyddir, dyddiad geni, rhyw a chenedligrwydd;

(b) cyfeiriad yr unigolyn;

(c) nodyn o gefndir ethnig yr unigolyn yn ôl ei ddiffiniad ei hun;

(d) dan ba adran o'r Ddeddf yr arestiwyd yr unigolyn;

(e) y drosedd (troseddau) estraddodi a nodwyd ar y warant Rhan 1 neu gais i estraddodi Rhan 2 (neu, lle mae'n hysbys, y drosedd a nodwyd gan y diriogaeth sy'n gwneud cais, os yw'r unigolyn wedi'i arestio dros dro dan Adran 5);

(f) lle bo modd, dyddiad a lleoliad y drosedd;

(g) enw'r wlad (e.e. Categori 1 neu 2) y deilliodd y warant Rhan 1 neu'r cais i estraddodi ohoni;

(h) y dyddiad, yr amser a'r man lle'r arestiwyd yr unigolyn;

(i) p'un a yw'r unigolyn wedi cael yr hawliau a'r hybysebiadau a amlinellir yn Adran 4.3 a 4.4 y Cod hwn;

(j) a oedd angen cyfieithydd a/neu gymorth cyfreithiol ar yr unigolyn;

(k) os yn hysbys, a yw'r unigolyn yn hawlio lloches yn y DU.

3.4 Rhaid i'r holl wybodaeth a gofnodir dan y Cod hwn gael ei chofnodi cyn gynted ag sy'n ymarferol yn y cofnod cadwraeth oni nodir yn wahanol.

## 4 Swyddogion y Ddalfa – cyfrifoldebau

### (a) Gweithredu Cychwynnol: unigolion dan gadwad

4.1 Rhaid trin yr unigolyn fel petai'n parhau mewn cadwraeth gyfreithiol o adeg yr arestio hyd nes ei fod naill ai:

- yn cael ei ddwyn yn gyntaf gerbron y barnwr priodol; neu
- yn cael ei ryddhau (gweler paragraffau 4.9 (a) – (d) y Cod hwn).

4.2 Mae rhestr wirio dyletswyddau swyddog y ddalfa dan y Cod hwn yn Atodiad B.

4.3 Pan fo unigolyn yn cael ei ddwyn i swyddfa'r heddlu wedi'i arestio, rhaid i swyddog y ddalfa:

- asesu dealltwriaeth yr unigolyn o'r Saesneg a'r angen am gyfieithydd;
- rhoi copi o'r warant arestio i'r unigolyn (gwarant Rhan 1 neu warant arestio domestig), os nad yw'r unigolyn eisoes wedi cael copi o'r warant gan y swyddog arestio (gweler paragraff 2.1 (b));
- rhybuddio'r unigolyn gan ddefnyddio geiriad y rhybudd ym mharagraff 2.1(a) y Cod hwn;
- dweud wrth yr unigolyn na fydd yn cael ei gyfweld ynglŷn â'r drosedd estraddodi;
- a gwneud yn siŵr y dywedir yn glir wrth yr unigolyn ynglŷn â:

  (a) chamau'r broses estraddodi gan gynnwys yr hawl i gytuno i gael ei estraddodi (mae ffurf o eiriad wedi'i amlinellu yn Atodiad C);

  (b) yr hawliau parhaus canlynol y gellir eu gweithredu unrhyw bryd yn ystod y cyfnod yn y ddalfa:

    (i) yr hawl i rywun gael gwybod fod yr unigolyn wedi'i arestio (dan Adran 171(3)(c) y Ddeddf);

(ii) yr hawl i ymgynghori'n breifat gyda chyfreithiwr a bod cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael am ddim (dan Adran 171 (3)(d) y Ddeddf);

(iii) yr hawl i ddefnyddio'r Codau Ymarfer hyn a Chodau Ymarfer PACE.

4.4 Rhaid i swyddog y ddalfa roi'r canlynol i'r un dan gadwad:

(a) rhybudd Estraddodi ysgrifenedig (Atodiad D) yn egluro:

(i) yr hawliau ym mharagraff 4.3(b);

(ii) y trefniadau ar gyfer cael cyngor cyfreithiol;

(iii) y rhybudd yn y telerau a ddisgrifir yn 2.1(a) uchod;

(iv) hysbysiad prosesu teg, yn egluro hawliau'r unigolyn mewn perthynas â defnyddio, cadw a datgelu data personol a gymerwyd dan y Ddeddf

(b) copi o'r ffurflen yn egluro camau'r broses estraddodi, gan gynnwys yr hawl i gytuno i gael ei estraddodi (Atodiad C);

(c) rhybudd ysgrifenedig yn amlinellu'u hawliau tra yn y ddalfa (gweler Cod C PACE, Canllawiau 3A a 3B).

4.5 Rhaid dweud wrth ddinesydd gwlad annibynnol sy'n perthyn i'r Gymanwlad neu ddinesydd gwlad dramor cyn gynted ag sy'n ymarferol am yr hawl i gysylltu â'i Uwch Gomisiwn, Llysgenhadaeth neu Swyddfa Is-gennad, fel yr amlinellir yng Nghod C Adran 7 PACE. Mae rhestr o wledydd y mae hyn yn berthnasol iddynt (fel ar 1 Ebrill 2003) yn Atodiad F Cod C PACE.

**(b) Gweithredu cychwynnol: unigolion dan gadwad – grwpiau arbennig**

4.6 Mae paragraffau 312 – 3.20 Cod C PACE yn berthnasol wrth weithredu'r Cod hwn.

**(c) Dogfennau**

4.7 Rhaid i'r rhesymau dros gadw unigolion gael ei gofnodi ym mhresenoldeb yr unigolyn, os yw'n ymarferol.

4.8 Rhaid cofnodi'r camau gweithredu dan baragraff 4.6 y Cod hwn.

**(d) Terfynau amser ar gyfer cadw unigolyn a'i ryddhau**

4.9 Dylai swyddogion y ddalfa nodi'r ymrwymiadau penodol sy'n ofynnol dan y Ddeddf mewn perthynas ag unigolion wedi'u harestio dan bŵer arestio i estraddodi.

(a) Rhaid rhoi copi o’r warant arestio (gwarant Rhan 1 neu warant ddomestig dan Ran 2) i’r unigolyn cyn gynted ag sy’n ymarferol ar ôl ei arestio (Adrannau 4(2), 6(5), 72(2) a 74(2));

Noder: os na chydymffurfir â’r ddarpariaeth hon, **gall** y barnwr orchymyn rhyddhau’r unigolyn;

(b) Rhaid cyflwyno copïau o’r cais i estraddodi, y dystysgrif ac unrhyw Orchymyn perthnasol i unigolyn a arestiwyd dan Adran 71 y Ddeddf cyn y gwrandawiad estraddodi (gweler paragraff 2.4 y Cod hwn);

Noder: os na chydymffurfir â’r ddarpariaeth hon, **rhaid** i’r barnwr orchymyn i’r unigolyn gael ei ryddhau;

(c) Rhaid dwyn unigolyn a arestiwyd dan Adran 3, 71 neu 73 o flaen barnwr priodol cyn gynted ag sy’n ymarferol (Adrannau 4(3), 72(3) a 74(3));

Noder: os na chydymffurfir â’r ddarpariaeth hon ac mae’r unigolyn yn gwneud cais i farnwr priodol am gael ei ryddhau, **rhaid** i’r barnwr orchymyn i’r unigolyn gael ei ryddhau;

(d) Rhaid dwyn unigolyn a arestiwyd dros dro dan Adran 5 y Ddeddf o flaen barnwr priodol **cyn pen 48 awr** wedi’i arestio;

Noder: os na chydymffurfir â’r ddarpariaeth hon ac mae’r unigolyn yn gwneud cais i farnwr priodol am gael ei ryddhau, **rhaid** i’r barnwr orchymyn i’r unigolyn gael ei ryddhau;

4.10 Os yw gwarant ardystiedig Rhan 1 yn cael ei chyflwyno ar ôl rhyddhau’r unigolyn dan Adran 6(6), gellir ail-arestio’r unigolyn dan Adran 3 y Ddeddf.

## 5 Eiddo un dan gadwad

### (a) Gweithredu

5.1 Swyddog y ddalfa sy’n gyfrifol am:

(a) sicrhau pa eiddo:

(i) sydd ym meddiant unigolion dan gadwad pan gânt eu dwyn i swyddfa’r heddlu wrth gael eu harestio;

(ii) y gallant fod wedi ei gaffael ar gyfer pwrpas anghyfreithlon neu niweidiol tra yn y ddalfa.

(b) cadw’n ddiogel unrhyw eiddo a gymerwyd oddi ar un dan gadwad ac sy’n cael ei gadw yn swyddfa’r heddlu.

5.2 Gall swyddog y ddalfa chwilio'r un sydd dan gadwad neu roi awdurdod iddo gael ei chwilio i'r graddau y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol. Caniateir chwiliadau personol a noeth-chwiliadau dan Adran 171(3)(b) y Ddeddf, ar yr amod eu bod yn cael eu cyflawni yn unol â Chod C, Atodiad A PACE.

5.3 Gall swyddog y ddalfa gipio a chadw unrhyw ddillad ac eiddo personol os oes ganddo sail resymol dros gredu:

(a) y gall yr unigolyn eu defnyddio i achosi niwed corfforol iddo'i hun neu i rywun arall;

(b) y gall yr unigolyn eu defnyddio fel cymorth i ddianc o gadwraeth gyfreithlon;

(c) ei fod yn dystiolaeth sy'n ymwneud â'r drosedd estraddodi neu drosedd a gyflawnwyd yn y Deyrnas Unedig neu dramor; neu

(d) ei fod yn ddeunydd sy'n ymwneud ag adnabod yr unigolyn.

5.4 At ddibenion yr adran hon, mae 'trosedd' yn cynnwys:

- y drosedd estraddodi;
- trosedd a gyflawnwyd yn y Deyrnas Unedig;
- trosedd a gyflawnwyd dramor.

5.5 Ni ellir caniatáu chwiliad personol neu noeth-chwiliad dan Adran 171 at ddibenion sicrhau pwy yw'r unigolyn.

5.6 Mae paragraffau 4.2 a 4.3 Cod C PACE hefyd yn berthnasol wrth weithredu'r Cod hwn.

**(b) Dogfennau**

5.7 Mae paragraffau 4.4 a 4.5 Cod C PACE yn berthnasol.

## *6 Unigolyn y chwilir amdano am drosedd yn y DU*

6.1 Os daw'n amlwg ar ôl arestio unigolyn dan y Ddeddf, bod yna dystiolaeth neu wybodaeth yn cysylltu'r unigolyn â throsedd yn y DU, dylid ei archwilio yn unol â gweithdrefnau domestig arferol.

6.2 Os yw'r unigolyn yn cael ei gyhuddo o drosedd yn y DU, rhaid i'r heddlu sy'n cynnal yr ymchwiliad ddweud wrth y barnwr priodol am y cyhuddiadau yn y DU cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dan Adrannau 22(2) a 88(2) rhaid i'r barnwr ohirio'r gweithrediadau i estraddodi.

**7 Hawl i beidio â chadw rhywun *incommunicado***

7.1 Mae Cod C Adran 5 PACE ac Atodiad B yn berthnasol.

**8 Hawl i gael cyngor cyfreithiol**

8.1 Mae paragraffau 6.1 – 6.5, 6.12 – 6.16 Cod C ac Atodiad B PACE yn berthnasol.

**9 Dinasyddion gwledydd annibynnol sy’n perthyn i’r Gymanwlad neu ddinasyddion tramor**

9.1 Mae Cod C Adran 7 PACE a pharagraff 4.5 y Cod hwn yn berthnasol.

**10 Amodau cadw yn y ddalfa**

10.1 Mae Cod C, Adran 8 PACE yn berthnasol.

**11 Gofal a thriniaeth rhai dan gadwad**

11.1 Mae Cod C, Adran 9 PACE yn berthnasol.

**ATODIAD A – ARESTIO DAN DDEDDF ESTRADDODI 2003**

1.1 Gall swyddog arestio dan un o bwerau canlynol y Ddeddf:

(a) **Adran 3: arestio dan warant ardystiedig Rhan 1**

Mae hyn yn berthnasol lle mae gwarant Rhan 1 wedi'i derbyn a'i hardystio gan awdurdod dynodedig y DU, sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) Manylion adnabod yr unigolyn;

(ii) Bod yr unigolyn wedi'i gyhuddo neu ei gael yn euog o drosedd mewn tiriogaeth Categori 1 a bod y warant wedi'i chyflwyno er mwyn arestio ac estraddodi unigolyn;

(iii) Amgylchiadau'r drosedd, yr amser a'r man lle'r honnir ei bod wedi'i chyflawni a manylion y gyfraith yn y diriogaeth Categori 1 yr honnir eu bod wedi'i thorri;

(iv) Y ddedfryd y gellir ei rhoi gan y diriogaeth Categori 1 os ceir yr unigolyn yn euog o'r drosedd;

(v) Manylion unrhyw warant arall a gyflwynwyd gan y diriogaeth Categori 1 ar gyfer arestio unigolyn.

(b) **Adran 5: Arestio dros dro dan Ran 1**

Mae hyn yn berthnasol lle mae gan awdurdod dynodedig y DU reswm dros gredu bod gwarant Rhan 1 wedi'i chyflwyno neu'n mynd i gael ei chyflwyno gan awdurdod barnwrol dynodedig mewn tiriogaeth Categori 1 mewn perthynas ag unigolyn. Ni fydd awdurdod dynodedig y DU wedi ardystio'r warant Rhan 1.

Gwneir cais i arestio dros dro fel arfer dan amgylchiadau brys lle credir fod unigolyn yn debygol o ddianc neu y disgwylir i'r unigolyn fod mewn man penodol am gyfnod byr iawn yn unig, a chyn bod amser i warant Rhan 1 gael ei chyflwyno, ei derbyn a'i hardystio.

(c) **Adran 71: arestio dan Ran 2, yn dilyn ardystio cais i estraddodi**

Mae hyn yn berthnasol pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ardystio cais i estraddodi gan diriogaeth Categori 2 a bod barnwr ardal wedi cyflwyno gwarant arestio mewn perthynas â'r unigolyn y ceisir ei estraddodi.

(d) **Adran 73: Gwarant arestio dros dro dan Ran 2**

Mae hyn yn berthnasol mewn achosion brys lle gwneir cais i estraddodi unigolyn gan diriogaeth Categori 2, ond nad oes dogfennau llawn wedi

dod i law hyd yma.  Dan yr amgylchiadau hyn, gall swyddog wneud cais i ynad heddwch am warant arestio dros dro mewn perthynas â'r unigolyn y ceisir ei estraddodi.

Er mwyn cyflwyno gwarant, rhaid i'r swyddog fodloni'r ynad heddwch yn ysgrifenedig a than lw:

i. Naill ai:

- Fod yr unigolyn yn cael ei gyhuddo o drosedd mewn tiriogaeth Categori 2; neu

- Yr honnir bod yr unigolyn wedi diengyd ar ôl ei gael yn euog neu ei ddedfrydu gan lys mewn tiriogaeth Categori 2;

ii. Bod y drosedd yn drosedd estraddodi;

iii. Y credir bod yr unigolyn yn y DU neu ar ei ffordd i'r DU;

iv. Bod yna wybodaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig a fyddai'n cyfiawnhau cyflwyno gwarant i arestio unigolyn a gyhuddwyd o drosedd neu sydd wedi diengyd yn anghyfreithlon, o fewn awdurdod y barnwr.

1.2 Nid oes yn rhaid i'r warant fod ym meddiant y swyddog adeg yr arestio.

**ATODIAD B – RHESTR WIRIO AR GYFER SWYDDOGION Y DDALFA MEWN ACHOSION ESTRADDODI**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Asesu'r angen am gyfieithydd | ☐ |
| 2. | Sicrhau bod yr unigolyn yn deall ei fod wedi'i arestio a pham ei fod wedi'i arestio | ☐ |
| 3. | Rhybuddio'r unigolyn gyda'r geiriau canlynol: 'Nid oes rhaid ichi ddweud dim, ond gellir defnyddio unrhyw beth a ddywedwch fel tystiolaeth' a dweud wrth yr unigolyn na fydd yn cael ei gyfweld na'i holi am y drosedd estraddodi | ☐ |
| 4. | Rhoi copi o'r warant arestio i'r unigolyn. Os yw unigolyn wedi'i arestio dan Ran 2 y Ddeddf, gwneud yn siŵr bod y papurau yng Nghod C paragraff 2.4 wedi'u cyflwyno i'r unigolyn | ☐ |
| 5. | Dweud wrth yr unigolyn am y broses estraddodi, gan gynnwys yr hawl i gytuno i gael ei estraddodi<br>(gweler ffurf geiriad, Atodiad C i God Ymarfer Estraddodi, Cod C) | ☐ |
| 6. | Dweud wrth yr unigolyn am eu hawliau tra yn y ddalfa:<br>(a) Hawl i roi gwybod i rywun ei fod wedi'i arestio a'i gadw'n y ddalfa<br>(b) Hawl i ymgynghori'n breifat â chyfreithiwr a bod cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael am ddim<br>(c) Hawl i ddefnyddio Codau Ymarfer Estraddodi a Chodau Ymarfer PACE | ☐ |
| 7. | Cyflwyno'r ffurflenni canlynol i'r unigolyn:<br>(a) Y rhybudd estraddodi ysgrifenedig (Atodiad D i God Ymarfer Estraddodi, Cod C) sy'n amlinellu:<br>• Hawliau'r unigolyn tra yn y ddalfa<br>• Y trefniadau ar gyfer cael cyngor cyfreithiol<br>• Y rhybudd estraddodi<br>• Yr hysbysiad prosesu teg o ran defnyddio, cadw a datgelu data personol a gymerir<br>(b) Hysbysiad ysgrifenedig yn egluro hawliau arferol unigolyn tra yn y ddalfa<br>(c) Copi ysgrifenedig o'r ffurflen yn egluro camau'r broses estraddodi.<br><br>a marcio'r cofnod cadwraeth fel bo'n briodol | ☐ |
| 8. | Dweud wrth unigolyn am yr hawl i gysylltu â'i Uwch Gomisiwn, Llysgenhadaeth neu Swyddfa Is-gennad (mae rhestr o'r gwledydd y mae hyn yn berthnasol iddynt, fel ar 1 Ebrill 2003, yn Atodiad F, Cod Ymarfer C) PACE a marcio'r cofnod cadwraeth fel bo'n briodol | ☐ |
| 9. | Gofyn i'r sawl sydd dan gadwad<br>(a) p'un a ydynt am:<br>• Gyngor cyfreithiol<br>• I rywun gael gwybod ei fod yn y ddalfa<br>(b) llofnodi'r cofnod cadwraeth i gadarnhau ei benderfyniadau mewn perthynas â'r | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| | **rhain** | |
| **10.** | **Cynnal asesiad o risg a phenderfynu a yw'r sawl sydd dan gadwad:**<br>**(a) angen triniaeth neu sylw meddygol neu'n debygol o fod eu hangen**<br>**(b) angen presenoldeb oedolyn priodol (yn unol â pharagraff 1.5 y Cod hwn) neu gymorth arbennig arall**<br>**a marcio'r cofnod cadwraeth fel bo'n briodol** | ☐ |
| **11.** | **Chwilio'r unigolyn i sicrhau pa eiddo sydd ym meddiant y sawl sydd dan gadwad a dogfennu hyn. Cofnodi'r rhesymau dros gadw unrhyw eitemau o eiddo, a marcio'r cofnod cadwraeth fel bo'n briodol** | ☐ |
| **12.** | **Sicrhau bod y wybodaeth ganlynol wedi'i chynnwys yn y cofnod cadwraeth ac anfon y wybodaeth hon ymlaen at yr Uned Ffoaduriaid yn NCIS (achosion Rhan 1) neu'r Uned Cydweithrediad Barnwrol yn y Swyddfa Gartref (achosion Rhan 2):**<br><br>**(a) Enw'r unigolyn ac enwau eraill a ddefnyddir, dyddiad geni, rhyw a chenedligrwydd**<br><br>**(b) Cyfeiriad yr unigolyn**<br><br>**(c) Nodyn o gefndir ethnig yr unigolyn yn ôl ei ddiffiniad ei hun;**<br><br>**(d) Dan ba adran o'r Ddeddf yr arestiwyd yr unigolyn;**<br><br>**(e) Y drosedd (troseddau) estraddodi a nodwyd ar y warant Rhan 1 neu gais i estraddodi Rhan 2 (neu, lle mae'n hysbys, y drosedd a nodwyd gan y diriogaeth sy'n gwneud cais, os yw'r unigolyn wedi'i arestio dros dro dan Adran 5);**<br><br>**(f) Lle bo modd, dyddiad a lleoliad y drosedd;**<br><br>**(g) Enw'r wlad (e.e. Categori 1 neu 2) y deilliodd y warant neu'r cais i estraddodi ohoni;**<br><br>**(h) Y dyddiad, yr amser a'r man lle arestiwyd yr unigolyn;**<br><br>**(i) P'un a yw'r unigolyn wedi cael yr hawliau a'r hysbysebiadau a amlinellir yn Adran 4.3 a 4.4 y Cod hwn;**<br><br>**(j) A oedd angen cyfieithydd a/neu gymorth cyfreithiol ar yr unigolyn;**<br><br>**(k) Os yn hysbys, a yw'r unigolyn yn hawlio lloches yn y DU** | ☐ |

## ATODIAD C – CRYNODEB O BROSES ESTRADDODI'R DU

*Noder: nid yw'r ffurflen hon yn eglurhad trylwyr o'r broses estraddodi, ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith, ond mae wedi'i lunio i'ch cynorthwyo i ddeall pam eich bod wedi'ch arestio a phrif gamau'r broses estraddodi.*

Os oes arnoch angen eglurhad mwy manwl am y broses neu os oes gennych gwestiynau pellach, dylech ofyn am gyngor gan eich cynghorwr cyfreithiol.

## RHAN 1: Unigolion a arestiwyd dan Adran 3 Deddf Estraddodi 2003

1) Rydych wedi'ch arestio dan Adran 3 Deddf Estraddodi 2003.

2) *Naill ai (lle mae unigolyn wedi'i gyhuddo o droseddau yn y Wladwriaeth sy'n Gwneud Cais):*

   [Tiriogaeth Categori 1] sy'n gofyn am eich estraddodi mewn perthynas â [throsedd(au)] a gyflawnwyd ar [dyddiad/amser] yn [lleoliad]

   *Neu (Lle mae unigolyn wedi'i gael yn euog o droseddau ac yr honnir iddo fod wedi diengyd yn anghyfreithlon):*

   [Tiriogaeth Categori 1] sy'n gofyn am eich estraddodi er mwyn [eich dedfrydu] neu [dreulio tymor mewn carchar] mewn perthynas â [throsedd a fanylir ar y warant].

3) Byddwch yn cael eich dal yn y ddalfa tan y gwrandawiad cychwynnol i estraddodi.

4) Mae yna ddau brif gam i'r broses estraddodi.

5) Y cyntaf yw gwrandawiad cychwynnol o flaen barnwr ardal. Cynhelir hwn cyn gynted ag sy'n ymarferol.

6) Yn y gwrandawiad cychwynnol bydd y barnwr naill ai'n eich cadw'n gaeth neu'n caniatáu mechnïaeth.

7) *Yr ail wrandawiad yw'r prif wrandawiad estraddodi. Cynhelir hwn fel arfer o flaen barnwr ardal cyn pen 21 diwrnod wedi'ch arestio.*

8) *Yn y gwrandawiad estraddodi, bydd y barnwr yn penderfynu a oes rhesymau pam na ddylech gael eich estraddodi ac yna gorchymyn i chi gael eich estraddodi i'r [diriogaeth Categori 1] neu eich rhyddhau.*

9) Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad y barnwr cyn pen 7 niwrnod. Os na fyddwch yn apelio, cewch eich dychwelyd i'r [diriogaeth Categori 1] cyn pen 10 diwrnod wedi'r gwrandawiad estraddodi.

10) Mae gennych hawl i gytuno i gael eich estraddodi. Os ydych am gytuno, dylech gysylltu â chynghorwr cyfreithiol ynglŷn â'r goblygiadau. Dim ond gerbron y barnwr priodol y gallwch gydsynio.

## RHAN 1: Arestio Dros Dro dan Adran 5 y Ddeddf Estraddodi 2003

*Noder: nid yw'r ffurflen hon yn eglurhad trylwyr o'r broses estraddodi, ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith, ond mae wedi'i lunio i'ch cynorthwyo i ddeall pam eich bod wedi'ch arestio a phrif gamau'r broses estraddodi.*

Os oes arnoch angen eglurhad mwy manwl am y broses neu os oes gennych gwestiynau pellach, dylech ofyn am gyngor gan eich cynghorwr cyfreithiol.

1) Rydych wedi'ch arestio dros dro dan Adran 5 y Ddeddf Estraddodi 2003.

2) *Naill ai (lle mae unigolyn wedi'i gyhuddo o droseddau yn y Wladwriaeth sy'n Gwneud Cais):*

   [Tiriogaeth Categori 1] sy'n gofyn am eich estraddodi mewn perthynas â [throsedd(au)] a gyflawnwyd ar [dyddiad/amser] yn [lleoliad]

   *Neu (Lle mae unigolyn wedi'i gael yn euog o droseddau ac yr honnir iddo fod wedi diengyd yn anghyfreithlon):*

   [Tiriogaeth Categori 1] sy'n gofyn am eich estraddodi er mwyn [eich dedfrydu] neu [dreulio tymor mewn carchar] mewn perthynas â [throsedd a fanylir ar y warant].

3) Os cewch eich cadw'n gaeth gan yr heddlu am fwy na 48 awr ar ôl eich arestio, tra'n ddisgwyl am warant ardystiedig Rhan 1 wedi'i ardystio, gallwch wneud cais i gael eich rhyddhau.

4) Mae gennych hawl i gael copi o'r warant cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

5) Mae yna ddau brif gam i'r broses estraddodi.

6) Y cyntaf yw gwrandawiad cychwynnol o flaen barnwr ardal. Cynhelir hwn cyn pen 48 awr wedi'ch arestio.

7) Yn y gwrandawiad cychwynnol bydd y barnwr naill ai'n eich cadw yn y ddalfa neu'n caniatáu mechnïaeth.

8) Yr ail wrandawiad yw'r prif wrandawiad estraddodi. Cynhelir hwn fel arfer o flaen barnwr ardal cyn pen 21 diwrnod wedi'ch arestio.

9) Yn y gwrandawiad estraddodi, bydd y barnwr yn penderfynu a oes rhesymau pam na ddylech gael eich estraddodi ac yna gorchymyn i chi gael eich estraddodi i'r [diriogaeth Categori 1] neu eich rhyddhau.

10) Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad y barnwr cyn pen 7 niwrnod. Os na fyddwch yn apelio, cewch eich dychwelyd i'r [diriogaeth Categori 1] cyn pen 10 diwrnod wedi'r gwrandawiad estraddodi.

11) Mae gennych hawl i gytuno i gael eich estraddodi. Os ydych am gytuno, dylech gysylltu â chynghorwr cyfreithiol ynglŷn â'r goblygiadau. Dim ond gerbron y barnwr priodol y gallwch gydsynio.

## RHAN 2: Unigolion a Arestiwyd dan Adran 71 Deddf Estraddodi 2003

*Noder: nid yw'r ffurflen hon yn eglurhad trylwyr o'r broses estraddodi, ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith, ond mae wedi'i lunio i'ch cynorthwyo i ddeall pam eich bod wedi'ch arestio a phrif gamau'r broses estraddodi.*

Os oes arnoch angen eglurhad mwy manwl am y broses neu os oes gennych gwestiynau pellach, dylech ofyn am gyngor gan eich cynghorwr cyfreithiol.

1) Rydych wedi'ch arestio dan Adran 71 Deddf Estraddodi 2003.

2) *Naill ai (lle mae unigolyn wedi'i gyhuddo o droseddau yn y Wladwriaeth sy'n Gwneud Cais):*

   [Tiriogaeth Categori 2] sy'n gofyn am eich estraddodi mewn perthynas â [throsedd(au)] a gyflawnwyd ar [dyddiad/amser] yn [lleoliad]

   *Neu (Lle mae unigolyn wedi'i gael yn euog o droseddau a honnir iddo fod wedi diengyd yn anghyfreithlon):*

   [Tiriogaeth Categori 2] sy'n gofyn am eich estraddodi er mwyn [eich dedfrydu] neu [dreulio tymor mewn carchar] mewn perthynas â [throsedd a fanylir ar y warant].

3) Cewch eich cadw yn y ddalfa hyd nes y cewch eich dwyn o flaen barnwr. Cewch eich dwyn o flaen barnwr cyn gynted ag sy'n ymarferol.

4) Mae tri phrif gam i'r gweithrediadau estraddodi.

5) Yn y cam cyntaf cewch eich dwyn o flaen barnwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eich arestio. Bydd y barnwr naill ai'n eich cadw'n gaeth neu'n caniatáu mechnïaeth.

6) Yr ail gam yw'r prif wrandawiad estraddodi. Cynhelir hwn cyn pen deufis wedi i chi gael eich dwyn o flaen barnwr am y tro cyntaf.

7) Yn y gwrandawiad estraddodi bydd y barnwr yn penderfynu a oes rhesymau pam na ddylech gael eich estraddodi. Bydd y barnwr wedyn naill ai'n eich rhyddhau neu'n anfon eich achos at yr Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a ddylech gael eich estraddodi.

8) Os yw eich achos yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol am benderfyniad, bydd gennych hawl i apelio, ond ni chaiff yr apêl wrandawiad tan ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud ei benderfyniad. Os bydd eich achos yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol, byddwch naill ai'n cael eich cadw yn y ddalfa neu yn cael mechnïaeth.

9) Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gorchymyn i chi gael eich estraddodi i'r [diriogaeth Categori 2], mae gennych hawli i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau'r barnwr a'r Ysgrifennydd Gwladol cyn pen 14 diwrnod.

10) Os na fyddwch yn apelio, cewch eich dychwelyd i'r [diriogaeth Categori 2] cyn pen 28 diwrnod ar ôl y gorchymyn i'ch estraddodi.

11) Mae gennych hawl i gytuno i gael eich estraddodi. Os ydych am gytuno, dylech gysylltu â chynghorwr cyfreithiol ynglŷn â'r goblygiadau. Dim ond gerbron y barnwr priodol y gallwch gydsynio.

## RHAN 2: Arestio Dros Dro dan Adran 73 Deddf Estraddodi 2003

*Noder: nid yw'r ffurflen hon yn eglurhad trylwyr o'r broses estraddodi, ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith, ond mae wedi'i lunio i'ch cynorthwyo i ddeall pam eich bod wedi'ch arestio a phrif gamau'r broses estraddodi.*

Os oes arnoch angen eglurhad mwy manwl am y broses neu os oes gennych gwestiynau pellach, dylech ofyn am gyngor gan eich cynghorwr cyfreithiol.

1) Rydych wedi'ch arestio dros dro dan Adran 73 Deddf Estraddodi 2003.

   *Naill ai (lle mae unigolyn wedi'i gyhuddo o droseddau yn y Wladwriaeth sy'n Gwneud Cais):*

   [Tiriogaeth Categori 2] sy'n gofyn am eich estraddodi mewn perthynas â [throsedd(au)] a gyflawnwyd ar [dyddiad/amser] yn [lleoliad]

   *Neu (Lle mae unigolyn wedi'i gael yn euog o droseddau a honnir iddo fod wedi diengyd yn anghyfreithlon):*

   [Tiriogaeth Categori 2] sy'n gofyn am eich estraddodi er mwyn [eich dedfrydu] neu [fwrw tymor mewn carchar] mewn perthynas â [throsedd a fanylir ar y warant].

2) Cewch eich cadw yn y ddalfa hyd nes y cewch eich dwyn o flaen barnwr. Cewch eich dwyn o flaen barnwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

3) Mae tri phrif gam i'r gweithrediadau estraddodi.

4) Yn y cam cyntaf cewch eich dwyn o flaen barnwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eich arestio. Bydd y barnwr naill ai'n eich cadw yn gaeth neu'n caniatáu mechnïaeth.

5) Ar yr amod bod y barnwr wedi derbyn yr holl ddogfennau angenrheidiol sy'n ymwneud â'ch achos, o fewn y terfynau amser sy'n berthnasol, bydd y barnwr yn penodi dyddiad ar gyfer y prif wrandawiad estraddodi. Y prif wrandawiad estraddodi yw ail gam y gweithrediadau.

6) Cynhelir y prif wrandawiad estraddodi cyn pen 2 fis wedi i'r barnwr dderbyn y dogfennau angenrheidiol.

7) Yn y gwrandawiad estraddodi bydd y barnwr yn penderfynu a oes rhesymau pam na ddylech gael eich estraddodi. Bydd y barnwr wedyn naill ai'n eich rhyddhau neu'n anfon eich achos ar yr Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a ddylech gael eich estraddodi.

8) Os yw eich achos yn cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol am benderfyniad, bydd gennych hawl i apelio, ond ni chaiff yr apêl wrandawiad tan ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud ei benderfyniad. Os bydd eich achos yn cael ei

anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol, byddwch naill ai'n cael eich cadw yn y ddalfa neu yn cael mechnïaeth.

9) Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gorchymyn i chi gael eich estraddodi i'r [diriogaeth Categori 2], mae gennych hawl i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau'r barnwr a'r Ysgrifennydd Gwladol cyn pen 14 diwrnod.

10) Os na fyddwch yn apelio, cewch eich dychwelyd i'r [diriogaeth Categori 2] cyn pen 28 diwrnod ar ôl y gorchymyn i'ch estraddodi.

11) *Mae gennych hawl i gytuno i gael eich estraddodi. Os ydych am gytuno, dylech gysylltu â chynghorwr cyfreithiol ynglŷn â'r goblygiadau. Dim ond gerbron y barnwr priodol y gallwch gydsynio.*

## ATODIAD D - ESTRADDODI: HYSBYSIAD YSGRIFENEDIG I UN SYDD DAN GADWAD GAN GYNNWYS HYSBYSIAD PROSESU TEG

Dylai'r adran mewn prif lythrennau gael ei darllen i'r un sydd dan gadwad gan Swyddog y Ddalfa cyn rhoi'r rhybudd i'r sawl dan gadwad.

MAE GENNYCH YR HAWL I:

1. SIARAD Â CHYFREITHIWR ANNIBYNNOL YN RHAD AC AM DDIM
2. GOFYN I RYWUN GAEL GWYBOD EICH BOD WEDI'CH ARESTIO
3. DEFNYDDIO'R CODAU YMARFER SY'N CWMPASU PWERAU A GWEITHDREFNAU'R HEDDLU
4. DEFNYDDIO'R CODAU YMARFER SY'N CWMPASU PWERAU'R HEDDLU A GWEITHDREFNAU ESTRADDODI

GALLWCH WNEUD UNRHYW RAI O'R RHAIN YN AWR, OND OS NA WNEWCH, GALLWCH WNEUD HYNNY UNRHYW BRYD TRA BYDDWCH YN CAEL EICH CADW YN Y DDALFA YN SWYDDFA'R HEDDLU

Nid oes rhaid i chi ddweud dim, ond gellir defnyddio unrhyw beth a ddywedwch fel tystiolaeth.

Ni fyddwch yn cael eich cyfweld ynglŷn â'r drosedd estraddodi.

Rhoddir mwy o fanylion isod. Gellir gweithredu'r 4 hawl parhaus canlynol unrhyw adeg yn ystod eich cyfnod yn y ddalfa:

**1. Yr hawl i gysylltu'n breifat â chyfreithiwr. Mae cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael yn rhad ac am ddim. (Adran 172 (3)(d) Deddf Estraddodi 2003)**

Gallwch siarad â chyfreithiwr yn unrhyw un o swyddfeydd yr heddlu unrhyw amser o'r dydd neu'r nos. Ni fydd yn costio dim i chi.

Dim ond dan amgylchiadau eithriadol penodol y gellir oedi mynediad i gyngor cyfreithiol (gweler Atodiad B Cod Ymarfer C PACE)

Os nad ydych yn gwybod am gyfreithiwr, neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'ch cyfreithiwr eich hun, gofynnwch am y cyfreithiwr sydd ar ddyletswydd. Nid oes ganddo ef neu hi ddim i'w wneud â'r heddlu. Neu gallwch ofyn am restr o gyfreithwyr lleol.

Gallwch siarad â chyfreithiwr yn breifat ar y ffôn a gall y cyfreithiwr ddod i'ch gweld yn swyddfa'r heddlu.

**Mewn achosion estraddodi nid fydd yr heddlu yn eich cyfweld ynglŷn â'r drosedd estraddodi**

Os ydych am weld cyfreithiwr, dywedwch wrth swyddog y ddalfa ar unwaith. Gallwch ofyn am gyngor cyfreithiol unrhyw bryd tra'ch bod yn y ddalfa. Hyd yn oed os byddwch yn dweud wrth yr heddlu nad ydych am gyfreithiwr, gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd.

Nid yw eich hawl i gyngor cyfreithiol yn rhoi hawl i chi oedi gweithdrefnau dan Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988 sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ddarparu samplau o anadl, gwaed neu iwrin.

**2. Yr hawl i rywun gael gwybod eich bod wedi'ch arestio ac yn cael eich cadw yn y ddalfa (dan Adran 172 (3)(c) Deddf Estraddodi 2003);**

Gallwch ofyn am i un unigolyn yr ydych yn ei adnabod ac sy'n debygol o gymryd diddordeb yn eich lles gael gwybod, ar gost y cyhoedd, cyn gynted ag sy'n ymarferol ble rydych chi. Os na ellir cysylltu â'r unigolyn hwn, gallwch ddewis hyd at ddau arall. Os na ellir cysylltu â hwy, mae gan Swyddog y Ddalfa ddisgresiwn o ran nifer yr ymdrechion pellach sydd eu hangen i gysylltu.

Dim ond dan amgylchiadau eithriadol penodol y gellir oedi'r hawl hwn (gweler Atodiad B Cod Ymarfer C PACE)

**3. a 4. Yr hawl i ddefnyddio Codau Ymarfer PACE a Chodau Ymarfer Estraddodi.**

Bydd y naill God Ymarfer neu'r llall neu'r ddau ar gael ar gais. Mae'r Codau hyn yn rheoli gweithdrefnau'r heddlu.

Nid yw'r hawl yn caniatáu i chi oedi'r gweithredu angenrheidiol yn afresymol.

Nid yw'r hawl yn caniatáu chi oedi gweithdrefnau Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu samplau o anadl, gwaed ac iwrin.

**Cofnod Cadwraeth**

Bydd Swyddog y Ddalfa yn cadw cofnod o'ch cyfnod yn y ddalfa. Ar gais, pan fyddwch yn gadael cadwraeth yr heddlu neu'n cael eich dwyn o flaen llys, gallwch chi neu eich cynrychiolydd cyfreithiol neu oedolyn priodol gael copi o'r Cofnod Cadwraeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'r hawl hwn yn para am 12 mis wedi i chi gael eich rhyddhau o gaethiwed yr heddlu.

**Hysbysiad Prosesu Teg**

**Prosesu teg mewn perthynas â defnyddio, cadw a datgelu data personol a gymerir dan Ddeddf Diogelu Data 1998.**

Ar gais ysgrifenedig dywedir wrthych cyn gynted ag sy'n ymarferol:

- pwy yw'r rheolwr data neu sicrhau bod hyn ar gael yn hawdd i chi (gall hwn fod yn unigolyn e.e. Prif Gwnstabl, neu'n gorff cofrestredig);

- pwrpas(au) prosesu'r data ac i bwy y gellir ei roi.
  Dan weithrediadau estraddodi, bydd y pwrpas yn cynnwys adnabod, cynnal Cofnod Cadwraeth, ystadegau a monitro – cyfeiriwch at Godau Estraddodi C 3.3 a D 1.2. Gellir trosglwyddo'r wybodaeth rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith, yma a thramor ac o fewn Llywodraeth Ei Mawrhydi.

Mae eich hawliau dan ddefnyddio, datgelu a chadw lluniau, olion bysedd a samplau yn cael eu hegluro yn y Codau Ymarfer Estraddodi, Cod D 3.13 i 3.18 a 4.17 i 4.19.

**Mae gan unigolion sy'n gwneud cais am fynediad i wybodaeth hawl i gael copi o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanynt, fodd bynnag nid yw'r hawl hwn yn rhoi hawl i chi gael y wybodaeth hon lle mae eithriadau'n berthnasol dan adran 29 (1) Deddf Diogelu Data neu lle mae eithriadau eraill yn berthnasol dan Ran 4 y Ddeddf. E.e. pe byddai mynediad yn debygol o amharu ar atal neu ganfod trosedd neu ddal neu erlyn troseddwyr**

Nid yw'r hawl yn caniatáu i chi oedi camau gweithredu angenrheidiol yn afresymol mewn cysylltiad â'ch achos.

Nid oes rhaid i'r heddlu gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar eich rhan.

Gellir cael gwybodaeth bellach gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar y **Llinell Ymholiadau**
Ffôn: 01625 545 745 neu ar yr Ebost: data@informationcommissioner.gov.uk

**Cod D**

Cod Ymarfer ar gyfer adnabod unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa dan Ddeddf Estraddodi 2003

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymwneud â'r prif ddulliau sydd ar gael i'r heddlu er mwyn adnabod pobl y chwilir amdanynt i gael eu hestraddodi ac ar gyfer cadw cofnodion cywir a dibynadwy o achosion estraddodi.

1.2 Gellir defnyddio'r dulliau canlynol i adnabod unigolion y chwilir amdanynt i'w hestraddodi:

- cymryd olion bysedd;
- samplau ac olion (cyffredin) o'r corff, gan gynnwys cymryd samplau megis gwaed neu wallt i greu proffil DNA i'w gymharu â deunydd a gafwyd gan y diriogaeth sy'n gwneud cais;
- tynnu lluniau;
- chwilio ac archwilio unigolion dan gadwad i ganfod, e.e. marciau megis tatŵs neu greithiau a all fod o gymorth i'w hadnabod.

1.3 Dan y Cod hwn ni ellir cymryd samplau personol er mwyn sicrhau adnabyddiaeth.

## 2 Cyffredinol

2.1 Rhaid i'r Cod hwn fod ar gael yn hawdd er mwyn i'r canlynol allu ei ddefnyddio:

- swyddogion yr heddlu;
- unigolion dan gadwad;
- aelodau'r cyhoedd.

2.2 Mae darpariaethau Cod D PACE paragraffau 2.3 – 2.6 a 2.12, 2.13 a 2.15 (a'r Canllawiau cyfatebol) yn berthnasol i'r Cod hwn mewn perthynas ag unigolion y tybir eu bod:

- ag anhwylder meddyliol neu yn agored i niwed meddyliol mewn ffordd arall;
- dan 17 oed;
- yn ddall, â nam gweledol difrifol, yn fyddar, yn methu â darllen neu siarad neu yn cael anhawster ar lafar oherwydd nam ar y lleferydd.

2.3 Mae cyfeiriadau at swyddogion y ddalfa yn cynnwys y rhai hynny sy'n gweithredu swyddogaethau swyddog y ddalfa.

2.4 Pan gofnodir unrhyw gamau gweithredu sy'n gofyn am awdurdod swyddog sydd ar lefel arbennig dan y Cod hwn, yn amodol ar baragraff 2.9, rhaid cofnodi enw a swydd y swyddog.

2.5 Pan fo'r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gael awdurdod neu gytundeb ymlaen llaw gan swyddog sy'n arolygydd neu'n uwch arolygydd o leiaf, rhaid i'r awdurdod hwnnw gael ei roi gan ringyll neu brif arolygydd sydd wedi'i awdurdodi i gyflawni swyddogaethau swyddog uwch dan Adran 107 PACE.

2.6 Yn amodol ar baragraff 2.10 rhaid amseru a llofnodi'r holl gofnodion gan y sawl sy'n eu cofnodi.

2.7 Mae cyfeiriadau at:

- 'dynnu llun', yn cynnwys defnyddio unrhyw broses ar gyfer cynhyrchu delwedd weledol lonydd sengl;
- dylid dehongli 'tynnu llun unigolyn' yn unol â hynny;
- mae 'lluniau', 'ffilmiau', 'negatifau' a 'chopïau' yn cynnwys delweddau gweledol perthnasol wedi'u cofnodi, eu storio neu eu hatgynhyrchu trwy unrhyw gyfrwng;
- mae 'difetha' yn cynnwys dileu data cyfrifiadurol sy'n ymwneud â delweddau o'r fath neu sicrhau nad yw mynediad i'r data hwnnw yn bosibl.

2.8 Mae cyfeiriadau at 'sampl bersonol' yn golygu olion deintyddol neu sampl o waed, semen neu hylif meinwe arall, wrin neu flew'r cedor neu swab a gymerwyd o agoriad yng nghorff unigolyn ar wahân i'r geg.

2.9 Nid oes dim yn y Cod hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i enwau swyddogion neu staff cynorthwyol sifilaidd gael eu cofnodi neu eu datgelu os yw'r swyddogion neu'r staff cynorthwyol sifilaidd o'r farn y byddai cofnodi neu ddatgelu eu henwau yn eu peryglu. Yn yr achosion hyn, byddant yn defnyddio gwarant neu rifau adnabod eraill ac enw eu swyddfa heddlu.

2.10 Mae'r darpariaethau yng Nghod D 2.18 – 2.22 PACE sy'n ymwneud â swyddogaeth staff cynorthwyol sifilaidd ac unigolion dynodedig yn berthnasol i'r Cod hwn.

## *3 Adnabod trwy olion bysedd a samplau*

### (a) Cyffredinol

3.1 Mae cyfeiriadau at 'olion bysedd' yn golygu unrhyw gofnod, a gynhyrchwyd trwy unrhyw ddull, o batrwm y croen a nodweddion corfforol eraill bysedd neu gledr llaw unigolion.

3.2 Mae cyfeiriadau at 'sampl gyffredin' yn golygu sampl o wallt, ar wahân i flew'r cedor, sampl a gymerwyd o ewin neu dan ewin, swab a gymerwyd o unrhyw ran o gorff unigolyn gan gynnwys y geg ond nid o unrhyw agoriad arall yn y corff, poer, neu olion croen (ar wahân i olion bysedd).

**(b) Gweithredu**

3.3 Dan Adran 166 y Ddeddf gellir cymryd olion bysedd neu sampl gyffredin oddi ar unrhyw unigolyn sy'n cael ei gadw yng ngorsaf yr heddlu mewn cysylltiad â throsedd estraddodi, er mwyn:

(a) cynorthwyo i adnabod unigolyn;

(b) cynorthwyo i adnabod unigolyn trwy groesgyfeirio data olion bysedd yn erbyn cofnodion hawlwyr lloches cyfredol sy'n cael eu cadw gan y Biwro Olion Bysedd Mewnfudwyr;

(c) cynorthwyo mewn ymchwiliad i droseddau'r DU sy'n dal yn agored neu heb eu datrys;

(d) cynorthwyo i gynnal erlyniadau gan neu ar ran yr heddlu neu awdurdodau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith neu'n erlyn yn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi;

(e) cynnal cofnod cenedlaethol yr heddlu o unigolion a estraddodwyd.

3.4 Gellir cymryd olion bysedd neu sampl gyffredin unigolion yn unig:

(a) gyda chaniatâd ysgrifenedig yr unigolyn; neu

(b) gydag awdurdod swyddog yr heddlu sy'n arolygydd o leiaf, heb y caniatâd hwnnw.

3.5 Gellir cymryd olion bysedd unigolyn yn electronig.

3.6 Gellir defnyddio grym rhesymol, os oes angen, i gymryd olion bysedd neu sampl gyffredin unigolyn, heb eu caniatâd.

3.7 Ni ellir cymryd samplau personol dan Adran 166 y Ddeddf.

3.8 Cyn cymryd olion bysedd a sampl gyffredin, gyda chaniatâd neu heb ganiatâd, rhaid dweud wrth yr unigolyn:

(a) beth yw'r rheswm dros gymryd eu holion bysedd neu'r sampl;

(b) y sail dros roi'r awdurdod perthnasol;

(c) y bydd ei olion bysedd a/neu'r wybodaeth sy'n deillio o'r samplau yn cael eu cadw a gallant fod yn destun chwiliad ar sail tybiaeth.

3.9 Dylai swyddogion barchu Cod D 6.9 PACE a'r Canllawiau cyfatebol yn y gweithdrefnau ar gyfer cymryd samplau cyffredin.

**(c) Dogfennau**

3.10 Rhaid cofnodi cyn gynted â phosibl:

(a) beth yw'r rheswm dros gymryd y sampl;

(b) beth yw'r rheswm dros gymryd olion bysedd yr unigolyn heb ganiatâd.

3.11 Os defnyddir grym, rhaid cofnodi'r amgylchiadau a'r rhai oedd yn bresennol.

3.12 Rhaid cofnodi'r ffaith bod unigolyn wedi cael gwybod y gall olion bysedd a samplau (a'r wybodaeth a geir ohonynt) fod yn destun chwiliad ar sail tybiaeth.

**(d) Defnyddio, datgelu a chadw olion bysedd a samplau**

3.13 Gellir defnyddio neu ddatgelu olion bysedd neu samplau (a'r wybodaeth a geir o'r samplau) a gymerwyd oddi ar unigolion dan Adran 166 yn unig ar gyfer dibenion sy'n ymwneud ag:

(a) adnabod unigolyn;

(b) atal a chanfod trosedd;

(c) ymchwilio i droseddau domestig;

(d) cynnal erlyniadau gan neu ar ran yr heddlu neu awdurdodau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith ac yn erlyn yn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi.

3.14 Ar ôl cael eu defnyddio neu eu datgelu gall yr heddlu ac awdurdodau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig gadw'r olion bysedd a'r samplau, ond ni ellir defnyddio neu ddatgelu'r wybodaeth heblaw ar gyfer y dibenion ym mharagraff 3.13 ac sy'n destun chwiliad ar sail tybiaeth.

3.15 Mae chwiliad ar sail tybiaeth yn golygu y gellir gwirio'r olion bysedd neu'r samplau (a'r wybodaeth a geir o'r samplau) yn erbyn olion bysedd a chofnodion DNA eraill sy'n cael eu dal gan neu ar ran yr heddlu ac awdurdodau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi, neu eu dal mewn cysylltiad â throsedd a gyflawnwyd yn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi neu o ganlyniad i drosedd o'r fath.

3.16 Gellir anfon olion bysedd a samplau (a'r wybodaeth a geir o'r samplau) neu gopïau o'r wybodaeth hon i'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais cyn

i’r gweithdrefnau estraddodi ddod i ben, er mwyn bod o gymorth i adnabod unigolyn.

### *(e) Dinistrio olion bysedd a samplau*

3.17 Pan gymerir olion bysedd a samplau oddi ar unigolyn y chwilir amdano i’w estraddodi ac mae’r unigolyn yn cael ei ryddhau o’r gweithrediadau estraddodi, rhaid iddynt gael eu dinistrio cyn gynted ag y maent wedi cyflawni’r pwrpas y cymerwyd hwynt ar ei gyfer, oni bai fod paragraff 3.18 yn berthnasol.

3.18 Os yw’r unigolyn yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i’w olion bysedd neu sampl gael ei gadw a’i ddefnyddio wedi iddynt gyflawni’r pwrpas, nid oes yn rhaid i’r olion bysedd neu’r samplau gael eu dinistrio.

3.19 Pan fo olion bysedd neu samplau unigolyn i gael eu dinistrio, rhaid i swyddogion ddilyn y canllawiau yng Nghod D, Atodiad F, paragraff 3 PACE.

## *4 Archwiliadau er mwyn adnabod a thynnu lluniau*

### (a) Chwilio neu archwilio unigolion dan gadwad yn swyddfeydd yr heddlu

4.1 Mae Adran 167 y Ddeddf yn caniatáu i swyddog neu unigolyn dynodedig chwilio neu archwilio unigolyn y chwilir amdano i’w estraddodi ac sy’n cael ei gadw yn swyddfa’r heddlu er mwyn canfod:

(a) p’un a oes ganddo unrhyw farciau, nodweddion neu anafiadau (e.e. tatwiau neu greithiau) a fyddai’n tueddu i nodi mai ef/hi yw’r unigolyn y chwilir amdano mewn cysylltiad â’r drosedd estraddodi, ac i dynnu llun unrhyw farciau adnabod (gweler y paragraff isod ar dynnu a defnyddio lluniau); neu

(b) ei adnabod.

4.2 Dan Adran 167 gellir cynnal chwiliad a/neu archwiliad i ganfod marciau:

(a) gyda chaniatâd yr unigolyn; neu

(b) heb ganiatâd yr unigolyn, os nad yw’n bosibl ei gael a bod awdurdod wedi’i roi yn unol â pharagraff 4.4.

4.3 Gellir tynnu llun marciau adnabod gyda chaniatâd yr unigolyn neu heb ei ganiatâd nad yw’n cael ei roi neu os nad yw’n bosibl ei gael. Nid oes angen i uwch swyddog roi awdurdod i dynnu lluniau heb ganiatâd, ond rhaid ffeilio’r dogfennau cywir yn unol â pharagraffau 4.15 – 4.16 isod.

4.4 Dim ond os bydd swyddog sy'n arolygydd neu'n uwch yn rhoi awdurdod y gellir cynnal chwiliad a/neu archwiliad heb ganiatâd. Gellir rhoi awdurdod ar lafar neu'n ysgrifenedig. Os rhoddir awdurdod ar lafar, rhaid i'r swyddog sy'n rhoi'r awdurdod gadarnhau'n ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n ymarferol. Mae angen awdurdod ar wahân ar gyfer pob pwrpas sy'n berthnasol.

4.5 Dim ond swyddog yr heddlu o'r un rhyw a all chwilio, archwilio neu dynnu llun unigolyn dan gadwad.

4.6 Os daw'n amlwg nad yw unigolyn yn barod i gydweithredu er mwyn galluogi chwiliad a/neu archwiliad i gael ei gynnal neu er mwyn gallu tynnu llun addas, gall swyddog ddefnyddio grym rhesymol i:

(a) chwilio a/neu archwilio unigolyn dan gadwad heb ei ganiatâd; a

(b) thynnu llun unrhyw farciau adnabod heb ei ganiatâd.

4.7 Ni ddylai chwiliad neu archwiliad a gynhelir yn unol â phwerau Adran 167 fod yn fwy trylwyr na'r hyn sy'n cael ei ystyried yn angenrheidiol gan y swyddog er mwyn cyflawni'r pwrpas gofynnol. Dylid cynnal unrhyw chwiliad neu archwiliad sy'n cynnwys tynnu mwy na dillad uchaf unigolyn yn unol â Chod C, Atodiad A, paragraff 11 PACE.

4.8 Ni ellir cynnal chwiliad personol dan Adran 167 y Ddeddf.

**(b) Tynnu lluniau**

4.9 Mae Adran 168 y Ddeddf yn caniatáu i swyddog neu unigolyn dynodedig dynnu llun unigolyn y chwilir amdano i'w estraddodi ac sy'n cael ei ddal yn swyddfa'r heddlu:

(a) gyda'i ganiatâd; neu

(b) heb ei ganiatâd, os nad yw'n bosib cael caniatâd.

4.10 Gall y swyddog sy'n bwriadu cymryd llun unigolyn, i'r perwyl hwn, ofyn i'r unigolyn dynnu unrhyw eitem neu sylwedd a wisgir ar y pen neu'r wyneb cyfan neu dros ran ohono. Os na fydd unigolyn yn cydymffurfio â chais o'r fath, gall y swyddog dynnu'r eitem neu'r sylwedd.

4.11 Os daw'n amlwg nad yw unigolyn yn barod i gydweithredu'n ddigonol er mwyn gallu tynnu llun addas ac nad yw'n ymarferol tynnu'r llun heb yn wybod iddo, gall swyddog ddefnyddio grym rhesymol:

(a) i dynnu llun heb ei ganiatâd; ac

(b) i dynnu unrhyw eitem neu sylwedd a wisgir dros y pen neu'r wyneb neu dros ran ohono y gwrthodwyd ei dynnu ar gais er mwyn tynnu llun.

4.12 At ddibenion y Cod hwn, gellir cael llun heb ganiatâd yr unigolyn trwy wneud copi o ddelwedd ohonynt a dynnwyd unrhyw bryd ar system gamera a osodwyd unrhyw le yn swyddfa'r heddlu.

**(c) Gwybodaeth i'w rhoi**

**4.13 Pan fo unigolyn yn cael ei chwilio, ei archwilio neu yn cael ei lun wedi'i dynnu rhaid dweud wrtho:**

**(a) beth yw pwrpas y chwiliad, yr archwiliad neu'r llun;**

(b) y rheswm dros roi awdurdod perthnasol, os gwaned hynny; ac

(c) i ba bwrpas y gellir defnyddio, datgelu neu gadw'r llun.

4.14 Rhaid rhoi'r wybodaeth hon cyn tynnu'r llun, oni bai fod y llun:

(a) yn cael ei dynnu heb yn wybod iddynt;

(b) yn dod i law fel ym mharagraff 4.12 trwy wneud copi o ddelwedd o'r unigolyn a dynnwyd unrhyw adeg ar system gamera a osodwyd unrhyw le yn swyddfa'r heddlu.

**(d) Dogfennau**

4.15 Rhaid cofnodi pan fo unigolyn yn cael ei chwilio, ei archwilio neu pan fo llun ohono'n cael yn cael ei dynnu neu pan fo llun unrhyw farciau adnabod a ganfuwyd arno'n cael eu tynnu. Rhaid i'r cofnod gynnwys:

(a) ffordd o adnabod y swyddog sy'n cynnal y chwiliad, yr archwiliad neu yn tynnu'r llun;

(b) pwrpas y chwiliad, yr archwiliad neu dynnu'r llun a'r canlyniad;

(c) caniatâd yr unigolyn i gael ei chwilio, ei archwilio neu i gael ei lun wedi'i dynnu neu'r rheswm pam y chwiliwyd, archwiliwyd neu y tynnwyd llun unigolyn heb ei ganiatâd;

(d) bod awdurdod wedi'i roi, y sail dros ei roi a'r swyddog a roddodd awdurdod.

4.16 Os, dan baragraff 4.11, y defnyddir grym wrth chwilio, archwilio neu dynnu llun, dylid cofnodi'r amgylchiadau a'r rhai oedd yn bresennol.

**(e) Defnyddio, datgelu a chadw lluniau unigolion neu farciau adnabod**

4.17 Gellir defnyddio neu ddatgelu lluniau unigolion neu farciau adnabod dan Adrannau 167 a 168 y Ddeddf yn unig at ddibenion sy'n ymwneud ag:

(a) adnabod unigolyn;

(b) atal a chanfod trosedd;

(c) ymchwilio i droseddau domestig;

(d) cynnal erlyniadau gan neu ar ran yr heddlu neu awdurdodau eraill gorfodi'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi.

4.18 Ar ôl cael eu defnyddio neu eu datgelu, gall yr heddlu ac awdurdodau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith yn y Deyrnas Unedig eu cadw ond ni ddylid eu defnyddio na'u datgelu ar wahân i'r pwrpasau ym mharagraff 4.17.

4.19 Gellir anfon llun o'r unigolyn neu o farciau adnabod (neu gopi) a dynnwyd dan Adran 167 neu 168 y Ddeddf i'r awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais cyn bod yr unigolyn yn cael ei estraddodi er mwyn cynorthwyo i adnabod yr unigolyn a arestiwyd.

## GEIRFA

| | |
|---|---|
| ***Barnwr priodol*** | Dan Rannau 1 a 2 y Ddeddf, y barnwr priodol yw'r:<br>• Barnwr Ardal (Llysoedd Ynadon) yng Nghymru a Lloegr;<br>• Barnwr llys sirol neu farnwr preswyl yng Ngogledd Iwerddon. |
| Tiriogaeth Categori 1 | Gwlad wedi'i dynodi gan Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol y mae'r DU yn gweithredu gweithdrefnau estraddodi gyda hi yn ôl Rhan 1 y Ddeddf (gweler gwefan y Swyddfa Gartref: www.homeoffice.gov.uk am restr lawn o diriogaethau Categori 1). |
| Tiriogaeth Categori 2 | Gwlad wedi'i dynodi gan Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol y mae'r DU yn gweithredu gweithdrefnau estraddodi gyda hi yn ôl Rhan 2 y Ddeddf (gweler gwefan y Swyddfa Gartref: www.homeoffice.gov.uk am restr lawn o diriogaethau Categori 2). |
| Gwarant ardystiedig | Gwarant Rhan 1 wedi'i chyflwyno gan awdurdod barnwrol tiriogaeth Categori 1 sy'n cael ei gwirio a'i hardystio fel gwarant ddilys gan awdurdod dynodedig y DU. |
| Cais ardystiedig | Cais i estraddodi gan diriogaeth Categori 2 sydd wedi'i wirio a'i ardystio fel cais dilys gan yr Ysgrifennydd Gwladol. |
| Barnwr cylchdaith | Barnwr sy'n eistedd yn y Llys Sirol a/neu Lys y Goron (barnwr Llys y Goron yng Ngogledd Iwerddon). |
| Unigolion Dynodedig | Unigolyn, heblaw swyddog yr heddlu, wedi'i ddynodi gan brif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal lle mae swyddfa'r heddlu wedi'i lleoli, neu yng Ngogledd Iwerddon, Prif Gwnstabl Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, y rhoddwyd ac y cyflwynwyd iddo bwerau a dyletswyddau penodol swyddogion yr heddlu. |
| ***Awdurdod Canolog Dynodedig*** | Y sefydliad a ddynodwyd gan Offeryn Statudol gyda'r swyddogaeth o ardystio gwarantau Rhan 1 a dderbyniwyd gan diriogaethau Categori 1 cyn i unigolyn gael ei arestio. Dyma'r awdurdodau canolog dynodedig ar gyfer y DU: Gwasanaeth Cenedlaethol Gwybodaeth Droseddol (NCIS) ac Asiant y Goron yn Swyddfa'r Goron yr Alban. |
| Barnwr ardal | Swyddog barnwrol y Llys sydd â dyletswyddau sy'n cynnwys ceisiadau achos a wnaed o fewn achosion a gwrandawiadau terfynol yn amodol ar unrhyw derfyn ar awdurdodaeth. |
| Deunydd wedi'i eithrio | Deunydd, cofnodion neu sylweddau sy'n cael eu dal yn |

| | |
|---|---|
| | gyfrinachol (gweler Adran 11 PACE). |
| Estraddodi | Y broses lle mae unigolyn sydd wedi'i gyhuddo neu ei gael yn euog o drosedd ddifrifol, ar gais gwlad arall, yn cael ei ddychwelyd i'r wlad honno gan y DU neu i'r gwrthwyneb. |
| Gwrandawiad estraddodi | Prif ran y broses estraddodi lle mae barnwr ardal yn ystyried y cais i estraddodi yn erbyn meini prawf a amlinellir yn y Ddeddf. |
| Trosedd estraddodi | Trosedd y mae gan wlad arall awdurdodaeth ar ei chyfer, ac y gwnaed cais i unigolion sefyll ei brawf, gael ei ddedfrydu neu dreulio'r ddedfryd dramor ac y bydd y DU yn ystyried estraddodi ar ei chyfer.  Neu, trosedd sy'n achosi i'r DU wneud cais am i unigolyn gael ei estraddodi o wlad arall. |
| Cais estraddodi | Y dogfennau a drosglwyddir o Lywodraeth i Lywodraeth o diriogaeth Categori 2 sy'n gwneud cais i unigolyn gael ei arestio a'i estraddodi.  Er mwyn bod yn ddilys, rhaid i'r cais i estraddodi fodloni meini prawf penodol yn Adran 70 y Ddeddf. |
| Olion bysedd | Unrhyw gofnod, a gynhyrchir trwy unrhyw ddull, o batrwm y croen a nodweddion corfforol eraill bysedd neu gledrau dwylo unigolyn (Adran 65 PACE). |
| Marc Adnabod | Marc sy'n cynorthwyo i sicrhau y gellir adnabod unigolyn. |
| Deunydd â chyswllt anorfod | Deunydd nad yw'n rhesymol ymarferol i'w wahanu oddi wrth ddeunydd cysylltiedig arall heb beryglu defnydd y deunydd hwnnw mewn ymchwiliad neu weithrediadau (e.e. efallai nad yw'n bosibl gwahanu eitemau o ddata a gedwir ar ddisg gyfrifiadurol heb wneud niwed i'w hygrededd fel tystiolaeth). |
| Gwrandawiad cychwynnol | Cam yn y broses estraddodi dan Ran 1 lle mae'r unigolyn yn cael ei ddwyn gerbron barnwr ardal (Adran 7). |
| Sampl Bersonol (*Intimate*) | Olion deintyddol neu sampl o waed, semen neu hylif meinwe arall, wrin neu flew'r cedor neu swab a gymerwyd o agoriad yng nghorff unigolyn ar wahân i'r geg. |
| Chwiliad Bersonol (*Intimate*) | Archwiliad corfforol o agoriadau ar gorff unigolyn ar wahân i'r geg. |
| Eitemau sy'n destun braint gyfreithiol | Cyfathrebiadau rhwng cynghorwr cyfreithiol unigolyn a'r cleient sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau.  Nid yw'n cynnwys unrhyw beth sy'n cael ei ddal gyda'r bwriad o hyrwyddo achos cyfreithiol. |
| Awdurdod barnwrol | Yr awdurdod mewn tiriogaeth Categori 1 sydd â'r |

| | |
|---|---|
| | swyddogaeth o gyflwyno gwarant Rhan 1 yn y wlad honno. |
| Ynad Heddwch | Ynad lleyg – unigolyn wedi'i benodi i weinyddu busnes barnwrol mewn Llys Ynadon. |
| Cynghorwr cyfreithiol | Bargyfreithiwr, cyfreithiwr neu gyfreithiwr ar ddyletswydd. |
| Braint gyfreithiol | Gweler 'eitemau sy'n destun braint gyfreithiol'. |
| Marc | Nodwedd neu anaf (e.e. tyllu'r corff, tatŵ, arwyddlun neu graith) a all fod o gymorth i adnabod unigolyn. |
| NCIS | Gwasanaeth Cenedlaethol Gwybodaeth Droseddol (gweler 'awdurdod canolog dynodedig'). |
| Sampl Gyffredin (*Non-intimate*) | Sampl o wallt heblaw blew'r cedor, sampl wedi'i gymryd o ewin neu o dan yr ewin, swab wedi'i gymryd o unrhyw ran o gorff unigolyn gan gynnwys y geg ond nid o agoriad arall ar y corff, poer neu olion croen (ar wahân i olion bysedd). |
| Chwiliad Cyffredin (*Non-intimate*) | Archwiliad corfforol o gorff unigolyn, gan gynnwys y geg, ond nid o agoriadau eraill o'r corff. |
| Swyddog â gofal | Swyddog, ar unrhyw lefel, wedi'i ddynodi i fod yng ngofal chwiliad gyda dyletswyddau a chyfrifoldebau arbennig wrth gynnal y chwiliad. |
| Gorchymyn i estraddodi | Gofyniad bod yr unigolyn y gwnaed cais i'w estraddodi gan diriogaeth Categori 1 neu 2 yn cael ei ddychwelyd i'r wlad honno i sefyll ei brawf, gael ei ddedfrydu neu dreulio'r ddedfryd dramor mewn perthynas â throsedd(au) estraddodi. |
| PACE | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. |
| Rhan 1 | Rhan 1 y Ddeddf, yn ymwneud â gweithdrefnau a chamau diogelu sy'n rheoli cais i estraddodi gan diriogaeth a ddynodwyd dan Ran 1 trwy Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol. |
| Gwarant Rhan 1 | Gwarant i arestio a gyflwynwyd dan Ran 1 y Ddeddf Estraddodi trwy awdurdod barnwrol mewn tiriogaeth Categori 1. |
| Rhan 2 | Rhan 2 y Ddeddf, yn ymwneud â gweithdrefnau a chamau diogelu sy'n rheoli cais i estraddodi gan diriogaeth a ddynodwyd dan Ran 2 trwy Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol. |
| Llun | Proses a ddefnyddir i gynhyrchu delwedd weledol, gan gynnwys gwneud copi o ddelwedd o'r unigolyn a dynnwyd |

| | |
|---|---|
| | unrhyw bryd ar system gamera a osodwyd unrhyw le yn swyddfa'r heddlu. |
| Eiddo | Unrhyw le, cerbyd, llong, awyren, hofranlong, pabell neu strwythur symudol ac unrhyw safle alltraeth fel y'i diffiniwyd yn Neddf Gweithiau Mwynau (Safleoedd Alltraeth) 1971, adran 1 (gweler Adran 23 PACE). |
| Arestio Dros Dro | 1) Arestio dan Ran 1 tra'n disgwyl derbyn gwarant ardystiedig Rhan 1 neu Warant Arestio Ewropeaidd ardystiedig; neu<br>2) Arestio dan Ran 2 dan warant i arestio dros dro a gyflwynwyd gan ynad y DU, tra'n disgwyl derbyn y dogfennau angenrheidiol dan Adran 70 y Ddeddf. |
| Awdurdod sy'n gwneud cais | Gweler 'awdurdod barnwrol'. |
| Tiriogaeth sy'n gwneud cais | Y diriogaeth Categori 2 sydd wedi gwneud i cais i estraddodi dan Ran 2 y Ddeddf. |
| Deunydd Gweithdrefn Arbennig | Deunydd newyddiadurol neu ddeunydd sy'n cael ei ddal yn gyfrinachol gan rywun yn rhinwedd swyddogaeth broffesiynol, ar wahân i ddeunydd wedi'i eithrio neu eitemau sy'n destun braint gyfreithiol (gweler Adran 14 PACE). |
| Chwiliad ar sail tybiaeth | Gwirio olion bysedd, samplau a'r wybodaeth a geir ohonynt yn erbyn olion bysedd a chofnodion DNA eraill sy'n cael eu dal gan neu ar ran yr heddlu neu awdurdodau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU yn ogystal â thu allan iddi. |
| Ildio | Y weithred gorfforol o drosglwyddo unigolyn, y gorchmynnwyd iddo gael ei estraddodi, i swyddogion yr awdurdod neu'r diriogaeth sy'n gwneud cais. |
| Trosedd y DU | Trosedd, fel y'i diffinnir yn Atodlen 1A PACE a gyflawnwyd yn y Deyrnas Unedig. |